

ECO'R WYDDFA

RHIF 86

TACHWEDD 1983

Pris: 20c

YR UN NA LWYDDODD I DDIANC



Emyr Wyn Owen o Ddeiniolen gyda'r eog a ddaliodd ar y Seiont ger Llanrug ddiwedd Medi. Cafodd Emyr gryn drafferth i dynnu'r anghenfil 15 pwys i'r lan — ond roedd yn fwy na balch i ddioddef y straen o'i godi i'w arddangos i ffotograffydd yr Eco! Tybed ai hwn oedd y pysgodyn trymaf i'w ddal ar y Seiont yn ystod y tymor diwethaf? Hoffem glywed os y daliwyd un trymach.



Anrhydedd i'r Cynghorydd

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Mrs Pat Larsen o Benisarwaun ar gael ei hethol yn gadeirydd Cyngor Taleithiol Gogledd Cymru, Adran y Llaw-weithwyr.

Mrs Larsen yw cynrychiolydd Gogledd Cymru ar y Pwyllgor Cenedlaethol sy'n cyfarfod gan amlaf yn Llundain i drafod materion yn ymwneud â gweithwyr llaw Cynghorau Gwledydd Prydain.

AIL DRWY GYMRO



MARK OWEN o Fethel a ddaeth yn ail drwy Gymru am reidio moped yn ddiogel mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd yn yr Wyddgrug yn ddiweddar. O ganlyniad, bydd yn cystadlu ym mis Chwefror mewn cystadleuaeth drwy wledydd Prydain yn Harrow ger Llundain.

Mae Mark, sy'n 17 oed, hefyd yn ymddiddori mewn sgramblo ac mae wedi ennill sawl gwobr ar y beic a welir yn y llun.

Paratowyd Mark ar gyfer y gystadleuaeth reidio moped gan Gwyndaf Jones, Llanrug.

Pan oedd yn ddisgybl yn ysgol Brynrefail dilynodd Mark gwrs a oedd yn unigryw i dair yn unig o Ysgolion Uwchradd Gwynedd — sef Addysg Drafnidiaeth. Llwyddodd i ennill Gradd 1, Tystysgrif Addysg Uwchradd yn y pwnc. Diolcha Mark i'w athro sef Mr Hywyn P. Jones am ennyn ei ddiddordeb yn y maes.

Mae Mark ar hyn o bryd yn dilyn cwrs Trin a thrwsio ceir yng Ngholeg Technegol Gwynedd, Bangor.

EISTEDDFOD LWYDDIANNUS ETO YN LLANRUG



Un o uchafbwyntiau Eisteddfod Llanrug ddechrau mis Hydref — y seremoni "ddwbl" yng ngofal gorsedd beirdd Ysgol Brynrefail. Yn yllungwelirgenethod ieuengaf Ysgol Llanrug yn perfformio'r ddawns flodau er anrhydedd prif lenor a phrif fardd yr Eisteddfod. Canlyniadau a rhagor o luniau ar dudalen 4.

BRAWD GARWCH



leuan Griffiths, neu 'Thunderbolt' i'w ffrindiau ar yr aer, yn defnyddio radio'r werin a gafodd yn rhodd gan Glwb Radio CB Foxtrot Delta. Cyflwynwyd y set iddo mewn parti ym Mron Dinas yn ystod mis Medi. Mae leuan, sy'n 11 oed ac yn rhannol ddall yn cael pleser mawr o'r radio ac yn siarad yn rheolaidd o'i gartref yn Neiniolen.

(Cyflwynwyd set CB hefyd i Keith Jones, 13 oed o Frynrefail. Aflwyddiannus fu ein hymdrechion i geisio dod i gysylltiad â Keith i'r pwrpas o dynnu ei lun ar gyfer y rhifyn hwn.)

ECO'R WYDDFA

RHIF 86
TACHWEDD

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
(Caernarfon 77163)

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams Tŷ Capel
Disgwylfa (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

RHAGFYR 1

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

TACHWEDD 22

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

LLAFAR GWLAD

Annwyl Olygydd,

Hoffwn dynnu sylw eich
darllenwyr at Llafar Gwlad y
cylchgrawn ar lôn gwerin a
thraddodiadau llafar ein
diwylliant.

Rydym yn gobeithio cynnal
erthyglau cyson ar amrywiaeth o
bynciau ar rydym yn dibynnu'n
drwm ar barodwydd cyfeillion i
gyfrannu ledled Cymru inni
lwyddo yn hyn o beth.

Bydd cyfres ar lasenwau
(ffugenwau) ac rydym yn
gobeithio cael detholiad da o un
ardal ar y tro - heb anghofio'r
llysenwau a geir ar bobl ardal
gyfan, megis Cathod Bangor a
Japs Brynman. Hefyd bydd
erthyglau ar ddywediadau digri,
ofergoelion, dywediadau
tywydd, straeon celwydd golau a
diarhebion - buasem yn
ddiolchgar am gyfraniadau (bach
neu mawr) ym mhob un o'r
meysydd hyn.

Hefyd bydd hanesion cwmniâu
drama lleol, ynghyd â storïau am
droeon trwstan ar y llwyfan -
unwaith eto buasem yn
gwerthfawrogi cyfraniadau yn
fawr iawn.

Ar ben y cyfan bydd Dyddiadur
Llafar Gwlad yn rhoi
hysbysrwydd i ddigwyddiadau o
ddiddordeb i'n darllenwyr - a
bydd pob cofnod o dan 20 gair yn
cael ei gyhoeddi am ddim. Felly
os am hysbyseb i wyl ddrama,
clwb gwerin, eisteddfod, darlith
neu gylch llenyddol neu gwr -
cysylltwch â ni.

Cyhoeddir y cylchgrawn
bedair gwaith y flwyddyn ym
misoedd Tachwedd, Chwefror,
Mai ac Awst, a gellwch ei
archebu yn eich siop Gymraeg
leol.

Danfongwch at y golygydd:
John Owen, Huws, Y Waun,
Tyddyn Llwydyn, Caernarfon;
neu at y Wasg:
Gwasg Carreg Gwalch, Capel
Garmon, Llanrwst, Gwynedd.

Yn gywir,
Myrddin ap Dafydd

CARDIAU NADOLIG

Annwyl Olygydd,

Eleni eto mae plant ysgol Pendalar
yn gwerthu eu cardiau Nadolig eu
hunain. Cynhaliwyd cystadleuaeth yn
yr ysgol i gymllunio'r cardiau gyda Mr
John Davies, Penygroes yn beirniadu.
Mae pedwar gwahanol gerdyn mewn
pecyn o 10 am £1. Gwerthir y cardiau
yn ysgol Pendalar Caernarfon gyda'r
elw at yr ysgol.

Os oes unrhyw un â diddordeb gellir
anfon i'r ysgol am y cardiau neu gellir
holi unrhyw un o athrawon yr ysgol am
ragor o fanylion.

Yn gywir,
O.M. Parry,
Ysgol Pendalar
Caernarfon

CYFLE I HELPU'R GYMDEITHAS
Annwyl Olygydd,

Yr wythnos hon cyflwynodd
Cymdeithas yr Iaith ddogfen i
Awdurdod Iechyd Gwynedd yn
hawlio newid llwyr yn eu
hagwedd tuag at y Gymraeg.
Rhestrir nifer o ofynion pendant,
a phetai'r Awdurdod yn cyhoeddi
datganiad o fwriad o blaid y
Gymraeg, ni fyddai dim yn eu

rhwystru rhag cychwyn ar raglen
o Gymreigio'r Awdurdod
ddechrau lonawr 1984. Fodd
bynnag, gydag agwedd yr
Awdurdod sydd wedi ein
hanwybyddu yn llwyr hyd yma,
rhagwelwn y bydd yn frwydr hir,
a phrin fod un ddogfen neu
ddeiseb yn eu hargyhoeddi.

Dyna pahan y down ar ofyn y
cyhoedd. Gwyddwn fod
enghreifftiau fil o Gymry
Cymraeg wedi cael eu brifo a'u
sarhau gan Seisnigrwydd yr
Awdurdod, naill ai gan lythrau
cyson uniaith Saesneg neu gan
feddyg neu swyddog
di-Gymraeg yn trin plentyn neu
rhywun mewn oed. Mae'r
Gymdeithas yn casglu
enghreifftiau o ddiffygion
ieithyddol yr Awdurdod ac yn
gofyn i'r cyhoedd anfon
cyfraniadau i'r cyfeiriad isod.
Wrth reswm, mewn achos fel
hwn, os dymunwch aros yn
ddi-enw, bydd y Gymdeithas yn
parchu eich dymuniad.

Er mwyn Cymru
Angharad Tomos

Bron Wylfa
Llanwnda
Caernarfon

CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf yn rhinwedd fy swydd
fel Trefnydd Cymdeithas Tai
Gwynedd, ac yn arbennig i sylw'r rhai
o'r fro hon a wnaeth gais am dŷ gan y
Gymdeithas yn ystod y blynyddoedd
diwethaf hyn. Bu'n arfer gan y
Gymdeithas i gadw enwau'r ymgeiswyr
ar ein rhestr aros barhaol, ond daeth yn
amlwg erbyn hyn nad yw'r drefn hon yn
effeithiol.

O hyn ymlaen, cedwir y ceisiadau am
chwe mis yn unig o'r dyddiad yr

arwyddir y ffurflen gais. O fewn y chwe
mis hwnnw, bydd y cais yn cael ei
ystyried am bob tŷ a ddaw yn wag. Ond
os hysbysebir tŷ ar ôl chwe mis, bydd
rhaid gwneud cais o'r newydd. Fel hyn,
gallwn sicrhau bod rhestr aros y
Gymdeithas yn gywir a chyfredol.

Os ydych chi wedi gwneud cais am
dŷ gan Gymdeithas Tai Gwynedd ers
mwy na chwe mis yn ôl, ac am i'ch enw
gael ei ystyried ar gyfer y tŷ nesaf a
ddaw yn wag, cofiwch anfon cais o'r
newydd pan welwch y tŷ'n cael ei
hysbysebu. Neu os dymunwch,
anfonwch gais i meun yn awr ar gyfer y
chwe mis nesaf.

Byddem yn falch iawn pe baech yn
cyflwyno'r neges hon i barwb o'ch
cydnabod sy'n debygol o fod â
diddordeb.

Yn gywir,
Dafydd Iwan

Ffordd Llanllyfni
Penygroes

Prynwch anrheg Nadolig o Goleg y Drindod

CIPIO'R CESTYLL

(Gêm Gymraeg i'r teulu)



Drwy ateb cwestiynau cyffredinol
cewch filwyr i gipio cestyll ac ennill y
gêm. Digon o hwyl wrth ychwanegu
at wybodaeth gyffredinol eich plant.

Pris y gêm: £5

(gan gynnwys cludiant) o

Ganolfan Adnoddau

Coleg y Drindod

Caerfyrddin

Dyfed

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn
rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros
100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi
o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR,
CEUNANT, TAN-Y-COED
a BETWS GARMON

GARETH JONES

Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS,
CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL
a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,

Hyfrydle Road, Capel Coch,
Llanberis (870471)

DEINIOLLEN, PENISARWAUN,
SEION, LLANDDEINIOLLEN,
TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES

Clarke Terrace, Ffordd Llanberis,
Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW'
YNGLŶN Â'CH

HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR
EICH AELWYD

Prudential

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL



CAPTEINIAID

Dewiswyd Meirion Jones (Bethel) a Bethan Hughes (Llanberis) yn gapteiniaid yr ysgol am eleni. Iwan Roberts (Deiniolen) yw is-gapten y bechgyn ac am y tro cyntaf mae dwy is-gapten ar y genethod - Marina Bryn Roberts (Dinorwig) a Lynne Jones (Llanberis). Llonyfarchiadau i chwi oll a phob hwyl yn ystod y flwyddyn.

GWOBWRWYON

Yng nghyfarfod Rheolwyr Ysgol Brynrefail penderfynwyd gwobrwyo'r disgyblion canlynol am eu canlyniadau Safon A, O a TAU. SAFON A: Gwobr Mrs Rowlands (i'r ferch a gafodd y canlyniadau gorau) - Margaret Ellen Roberts, A Bioleg, B Cemeg, C Mathemateg. Gwobr Dr Lloyd Williams (i'r bachgen a gafodd y canlyniadau gorau) - James Spry, B Cemeg, B Mathemateg, C Ffiseg. Gwobr Nell Owen (Mathemateg) - James Spry, B. Gwobr David Jones (Mathemateg) - Dylan Green, A Math. Ychwanegol, B Ystadegau; Meirion Jones, A Math. Ychwanegol, B Ystadegau. Gwobr I.L. James (Ffiseg) - James Spry, C. Gwobr Mr Gwyndaf Evans (Ysgrythur) - Carys Wyn Jones, A. Gwobr Mrs M.V. Jones (Bioleg) - Margaret Ellen Roberts, A. Yr oedd dau fachgen arall sef Ian Peter Williams (B Bioleg, C Cemeg, E Ffiseg) a Ceri Evan Thomas (C Bioleg, A Daearyddiaeth, B Mathemateg) yn haeddu cael eu llongyfarch. SAFON O: Gwobr Arbennig - Peter Shape (7A, 3B) a Harri Rheinallt Parri (5A, 5B). Hefyd Ifan Richard Evans (3A, 4B) ac Ashley Craig Willis (3A, 4B). SAFON TAU: Gwobr Arbennig - Susan McNall, Judith Kisalu (5 gradd 1), Carol Ann Jones, Sandra Alison Jones (4 gradd 1). Hefyd Sian Gruffydd Williams, Gareth John Hughes, Marc Antoni Owen, Peter Lloyd Jones, Sian Zena Thomas, Steven Thomas (oll 3 gradd 1). Y mae'r rhai uchod wedi cael gradd 1 yn yr arholiad TAU yn unig. Ni chynhwysir y rhai sydd wedi sefyll y Maes Llafur Cyffredin.

TAITH GYFNEWID

Eleni eto bu criw o blant yr ysgol ar daith gyfnewid i Lydaw. Gyda'r pymtheg a aeth, 'roedd Mr Thomas, y prifathro, a Mrs Edwards, yr athrawes Ffrangeg.

YR URDD

Mae Adran yr Urdd yn brysur iawn y dyddiau hyn. Cynhaliwyd Helfa

Drysor ychydig wythnosau yn ôl a bu llawer o'r aelodau yn rhuthro o amgylch yr ysgol yn chwilio am atebion. Diolch i Mr Dafydd Evans am drefnu'r noson.

Y TRYDYDD BYD

Pnawn dydd Mawrth, 18 Hydref aeth y chweched dosbarth i Ysgol Tryfan, Bangor, i wrando ar Mr Frank Judd, cadeirydd y VSO, yn darlithio ar y Trydydd Byd a'i broblemau.

DISCO NODDEDIG

Yn ystod y mis cynhaliwyd disco nodedig gan y Chweched i geisio hel arian i roi parti Nadolig i blant Ysgol Pendalar. Bu'n rhaid iddynt ddawnsio am bum awr a dioddefodd Mr Fleming y sŵn er mwyn eu cadw ar eu traed! Diolch o galon i bawb a noddodd y dawnsiwr.

'KES'

Dydd Mercher, 19 Hydref, aeth dros 200 o ddisgyblion yr ysgol i Theatr Gwynedd i weld y ffilm 'Kes'. Diolch i Mrs Beryl Jones o'r Adran Saesneg am drefnu'r ymweliad.

PÊL-DROED

Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon (oddi cartref): Bechgyn Hyn - ennill 2-1 (Cwpan Ivor Tuck); Bechgyn dan 15 - colli 5-1; Bechgyn dan 13 - colli 3-1.

Ysgol Eifionydd, Porthmadog (oddi cartref): Bechgyn Hyn - cyfartal 2-2; dan 15 - colli 4-2; dan 13 - ennill 6-1. Ysgol Dyffryn Ogwen (gartref): Bechgyn Hyn - ennill 6-0 (Cwpan Ivor Tuck).

Ysgol Dyffryn Nantlle (gartref): Bechgyn Hyn - cyfartal 2-2; dan 15 - ennill 2-1; dan 13 - colli 3-1.

Ysgol Eifionydd, Porthmadog (gartref): Bechgyn Hyn - ennill 3-1; dan 15 - ennill 2-0; dan 13 - ennill 2-1.

TWRNAMEINT PÊL-DROED YSGOLION ARFON YM MHWLLHELI - twrnameint i dimau dan 15 oedd hwn. Collodd tîm yr ysgol 3-1 yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn Ysgol Botwnnog. Aeth Ysgol Botwnnog ymlaen i ennill y gystadleuaeth trwy drechu Ysgol Syr Hugh Owen yn y gêm derfynol.

Bu Steven Owen (Cwm-y-glo) yn chwarae yn y gôl i dîm hyn Ysgolion Gogledd Cymru yn erbyn Ysgolion Lerpwl. Colli wnaeth y gogledd 3-1.

SGŌ - Ym mhencampwriaethau Sgio Ysgolion Cymru ym Mhontypŵl daeth Ysgol Brynrefail yn gyntaf yn y gystadleuaeth tîm. Aelodau'r tîm buddugol oedd: Timothy Lloyd,

Kirsty McCann, Rubina McCann a Bryan Glass. Bydd y tîm hwn yn cynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau Prydain yng Nghaeredin ym mis Tachwedd. Cafwyd llwyddiant yn y cystadlaethau unigol hefyd: Bechgyn - Sgŵr gorau o bob adran: Timothy Lloyd. Dan 19 - 3ydd David Glass; Dan 17 - 1af Timothy Lloyd; Dan 13 - 2ail Philip Ingle, 3ydd Jake Wood. Genethod - Dan 17 1af Rubina McCann; Dan 15 1af Kirsty McCann.

PÊL-RWYD

Yn erbyn Ysgol Eifionydd (oddi cartref) Dan 13 - Ennill 4-0; dan 17 - Ennill 11-2. Yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle (gartref) Dan 13 - Ennill 9-0; dan 15 - colli 9-6. Yn erbyn Ysgol Eifionydd (gartref) Dan 13 - ennill 25-3; dan 15 - cyfartal 12-12.

HOCI

Dan 17 - colli 4-0.

TWRNAMEINT PÊL-RWYD yn Ysgol Glan-y-môr, Pwllheli. Dilëwyd y twrnameint oherwydd tywydd drwg. Chwaraeodd y timau ddwy gêm yr un, ac enillodd tîm Brynrefail y ddwy yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Eifionydd. Dewiswyd Lynne Jones (Dosbarth 6) i chwarae i dîm pêl-rwyd De Arfon.



Gôl-geidwad Tîm Bechgyn Hyn Gogledd Cymru - Steven Owen.

NANT PERIS

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs H. Morris, 1 Stryd Newydd, Bethel ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llw anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

GWELLA: Balch ydym o gael croesawu Mr T.J. Roberts, Llys Awel gartref ar ôl ysbaidd yn ysbyty Bryn Seiont a dymuno adferiad iechyd buan iddo.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Hydref 1 yn Eglwys Sant Peris priodwyd Hilda Wyn merch Mrs Ann Jones, Glendale, Nant Ffynnon â Wyn Morris, mab Mr a Mrs Idris Morris, Rhoslan, Llanddeiniolen. Rhoddwyd y briodferch i'w gŵr gan ei hewythr William Owen Griffiths, Lôn Glai. Y morynion oedd Margaret, Ann, Lowri, Ceri a Sara Wyn a'r gwas oedd

Aled Morris, brawd y priodfab. Byddant yn cartrefu yn y Ddôl, Bethel.

DIOLCH: Dymuna T.J. Roberts, Llys Awel ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd a dymuniadau da, anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty.

Dymuniadau da i Hilda a Wyn Morris ar eu priodas.

DIOLCHGARWCH: Cafwyd cyfarfodydd bendithiol ddydd diolchgarwch yn Eglwys Sant Peris a Rehoboth. Cafwyd gwasanaeth caboledig iawn gan y plant yn Rehoboth dan arweiniad Mrs J.M. Williams, Pennant. Calondid oedd gweld y bechgyn ieuainc yn cymryd gwasanaeth yr hwyr.



Priodas Hilda a Wyn.

NOSON YNG NGHWMNI ADARWR

Cynhelir noson gyda'r naturiaethwr a'r adarwr enwog E. Breeze-Jones yn Ysgol Gynradd Llanrug, nos Fercher, 30 Tachwedd am 7.30. Bydd yn sgwrsio am adar yn bennaf ac yn dangos sleidiau. Tâl mynediad, oedolion 20c, plant a phensiynwyr 10c.

Bydd paned a lluniaeth ysgafn ar ôl. Trefnir y noson gan Gangen Llanrug o Blaid Cymru. Croeso cynnes i bawb.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

W.J. GRIFFITH

PLYMAR

A GOSODWR GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL SYSTEMAU GWRESOGI OLEW GWRES BP



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan, Dim un dasg rhy fawr.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Hydref 11 yn Ysgol Gynradd Llanrug cynhaliwyd Noson Goffi gan Adran Llanrug o Ferched y Wawr. Yr oedd yno stondinau cacenau, planhigion a photeli, a threfnwyd gemau i ddifyrru'r plant. Noson agored i aelodau ac i'r ardal, y rhai heb fod yn aelodau a phlant ydoedd. Llywydd y noson oedd Mrs Bethanne Williams yr is-lywydd.

Daeth tyrfa dda ynghyd a chafwyd noson ddiddan yng nghwmni cyfeillion. Diolchodd Mrs Bethanne Williams i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y noson. Enillwyd y ddwy raffl gan Mrs T. Thomas a Mrs Margaret Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 8, a'r gŵr gwadd fydd y Dr Derec Llwyd Morgan. Croeso cynnes i'r aelodau. Estynnir croeso cynnes hefyd i aelodau newydd.

CYMORTH I ANFFODUSION Y TRYDYDD BYD: Nos Wener, Hydref 14 yn Ffestri'r Capel Mawr cafwyd arwerthiant dan nawdd 'Tearcraft'. Trefnwyd y cyfarfod gan Emyr a Delyth Tomos, Deiniolen. Dechreuwyd trwy weddi gan Mrs Nansi Roberts, Manod. Gwnaed elw o dros £80 at yr achos da hwn.

DYDD DIOLCHGARWCH Y CAPEL MAWR:

Cafwyd tri chyfrafod bendithiol iawn yn y Capel Mawr ddydd Llun, Hydref 17. Y plant gymerodd ran yng nghyfarfod y bore am 10 o'r gloch. Daeth nifer fawr o blant yr Eglwys ynghyd fel arfer, a gwnaethant waith da iawn. Trefnwyd cyfarfod diolchgarwch y plant eleni gan arolygyddes yr Ysgol Sul, Mrs Meirwen Lloyd yn cael ei chynorthwyo gan athrawon yr Ysgol Sul. Y prynhawn am ddau o'r gloch cafwyd Cyfarfod Gweddi Chwiorydd yr eglwys pryd y cymerwyd rhan gan Mrs Mair O. Jones, Mrs Linda Schudlak, Mrs Nansi Roberts, Miss Gwenda Jones, Mrs Gwenda Roberts, Mrs Beryl Thomas, Mrs Carys Jones, Mrs Rhian Jones. Yn yr hwyr cymerwyd rhan mewn gweddi gan Mr Oswald Davies, Plasgwyn, Mr John Wyn Owen, Llwyn y Delyn a Mr Iolo Llywelyn, Pantafon Bach. Yn ystod y dydd cyfeiliwyd gan Mrs Mair Jones, Ogwen yn y bore; Mrs Nansi Lovatt yn y prynhawn a Mrs Eirlys Pierce yn yr hwyr.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR:

Nos lau Hydref 6 am saith o'r gloch cafwyd noson goffi gyntaf y tymor. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Nansi Roberts, Manod. Anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn wael ac yn methu bod gyda ni. Gwnaed trefniadau at Ddydd Diolchgarwch. Diolchwyd i'r chwiorydd a anfonodd roddion mewn nwyddau ac arian at y gwaith er yn methu bod yn bresennol. Y swyddogion yw: Llywydd, Mrs Nansi Roberts, Manod, Ysgrifennydd, Mrs Beryl Thomas, Gerallt, Trysorydd, Mrs Dorothy Jones, Tegerin. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt a Mrs Nansi Roberts, Manod. Diolchwyd gan y llywydd. Bydd y Ffair Nadolig flynyddol yn cael ei chynnal ar Ragfyr 1af.

DIOLCH: Dyuna Mrs Jane Williams, Bryn Eifion ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn tra bu'n Ysbyty Clatterbridge, Wirral.

CROESO ADREF: o'r ysbyty i Mrs Jane Williams, Bryn Eifion. Dymunwn iddi adferiad llwyr a buan.

DIOLCH: Dymuna Mrs Mona Mai Griffith, a'r teulu, ddiolch o galon am

y swm o £75 a dderbyniwyd tuag at Ward Ogwen, Ysbyty Môn ac Arfon, er cof am ei mam, sef y ddiweddar Mrs M.M. Williams, 'Rhyd', 25 Hafan Elan, Llanrug. Diolch yn fawr iawn.

PRIODAS: Llongyfarchiadau i Ellen Mackinnon, Plastirion ar ei phriodas â David Beard o Kingswinford. Byddant yn cartrefu yn Quinton, Birmingham. Dymunwn briodas hapus iddyn.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Siencyn Rowland Hughes ar enedigaeth eu mab, Dylan Rowland, brawd bach i Rhian, ac ŵyr i Dr a Mrs Dan Hughes, Pantafon.

MARW - Ddydd Sul, 16 Hydref, yn ei chartref, Fferm Brookhouse, Dinbych, bu farw Mrs Nora Hughes, merch hynaf Mr a Mrs R.J. Williams, Wernlas, 3 Crawia (gynt) a chwaer Gwynifer a Len. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

CLWB BLODAU'R GRUG - Cyfarfu'r Clwb yn y Sefydliad Coffa bawn lau, 13 Hydref, pryd y dangoswyd ffilm gan Mrs Jones, Fron Gader, Cwm-y-glo yn ymwneud â gwaith cartrefi Dr Barnardo gyda phlant dan anfantais corfforol a meddyliol. Cafwyd agoriad llygad wrth weld cymaint o waith a wneir yn y cartrefi a'r llwyddiant a ddangoswyd gan y rhan fwyaf o'r plant.

Diolchwyd i Mrs Jones gan Miss A.C. Jones, Glanllyn ac eiliwyd gan Mrs S.O. Edwards, Ciln, Ffordd Glanffynnon. Rhoddwyd y te gan Mrs Ena Jones, Bod Ifor, Mrs A. Smith, Llechwedd, Mrs T. Jones, 5 Rhos Rug a Mrs D.K. Williams, Meirionfa, Stad Tal-y-bont.

Rhaghysbysiad - Bydd Cwmni Drama Llanberis yn perfformio yn Llanrug ar 16 Chwefror 1984 a'r elwat gyllid y Clwb.

HAFAN ELAN - Estynnwn groeso cynnes i Mrs Thomas i'n plith a dymunwn hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.

Mae Mrs E. Williams, Rhif 16 wedi bod dan driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar a balch oeddem o'i derbyn yn ôl. Dymunwn iddi lwyr iachâd yn fuan.

Mae rhai o'r trigolion eraill wedi bod yn wael hefyd ond da ydyw deall eu bod erbyn hyn wedi gwella.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Robin Parry, 12 Bro Rhythallt ar ddathlu deugain mlynedd o fywyd priodasol.

CROESO ADREF i Mrs N. Owen, Trigle ar ôl ysbaid yn yr ysbyty. Da ei gweld yn gwella.

CYDYMDEIMLIR â Mr a Mrs Kenneth Jones, Bungalow ar farwolaeth Jacqueline, chwaer Kenneth. Hi yn un o blant Pontrhythallt.

Hefyd Mr a Mrs Ifor Williams, Gwelfryn ym marwolaeth brawd yng nghyfraith Ceri yn Llanrwst.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Cafwyd noson arbennig yng nghyfarfod cyntaf y Gymdeithas. Y siaradwr oedd y Canon R.D. Roberts, Llanfairpwll (gynt o Benisarwaun), ynghyd â'i briod a ddiddanodd yr aelodau gyda Chaneuon Gwerin a sgwrs am hen faledi a chaneuon traddodiadol Cymru. Y llywydd oedd y Parch W.O. Roberts a thalwyd diolch gan Mrs J.L.I. Williams, Bod Fair.

Croesawyd aelodau o'r newydd. Roedd cynulliad da o'r aelodau yn bresennol i gychwyn y tymor. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu.

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

CANLYNIADAU:

CERDD: Unawd cyn oedran ysgol: 1. Bethan. Meithrinfa a dosbarth derbyn: 1. Sioned Mair, 2. Beverley, 3. Rhian.

Babanod canol ac uchaf: 1. Llŷr Roberts, 2. Siwan a Gwyn, 3. Ceren a Sarah. **Safon 1 a 2:** 1. Lowri Angharad, 2. Gwenan Mair a Gwen, 3. Ffion a Iona Non. **Cerdd Dant dan 9:** 1. Llŷr a Lowri Angharad. **Unawd unrhyw offeryn chwyth dan 12:** 1. Sian Wyn, 2. Rhodri, 3. Bryn Thomas. **Unrhyw offeryn llinynnol dan 12 oed:** 1. Gwenan Mair, 2. Denise, 3. Ffion a Lowri. **Unawd safon 3 a 4:** 1. Ffion, 2. Adrian, 3. Iestyn. **Parti Danws Gwerin dan 12:** 1. Parti Karen a Dewi, 2. Parti Kevin a Lowri, 3. Parti Tammi, Gethin ac Angela. **Unawd Cerdd Dant dan 12:** 1. Ffion. **Parti Recordyddion dan 12:** 1. Parti Adrian, 2. Parti Colin, 3. Parti Fiona. **Parti Unsain dan 12:** 1. Parti Sian, 2. Hogia Safon 4, 3. Parti Mandy. **Unawd dosb. 1, 2 a 3:** 1. Graham Williams, 2. Sharon Roberts, 3. Nia Jones ac Elen Roberts. **12-16 oed:** 1. Bethan Haf, Garndolbenmaen, 2. Hefina Williams, Eglwysbach, 3. Alison Edwards, Llanberis a Graham Williams, Llanrug. **Deuawd dan 16 oed:** 1. Carys a Beryl, Y Ffôr, 2. Alison a Jane, Llanberis a Sharon a Helen, Llanrug. **Unawd ar unrhyw offeryn dan 19 oed:** (piano) 1. Rhianon Pritchard, 2. Alison Edwards, 3. Elen Roberts. (chwyth) 1. Gwyn Meirion Roberts, 2. Graham Williams, David Jacobs. **Unawd 16-21:** 1. Anwen Bumby, Penygroes, 2. Trefor Williams, Bodffordd. **Cerdd Dant dan 21 oed:** 1. John Eifion, Garndolbenmaen, 2. Bethan Haf, Garndolbenmaen, 3. Alison Edwards, Llanberis. **Cân Werin:** 1. John Eifion, Garndolbenmaen, 2. Nerys W. Jones, Caernarfon. **Unawd ar unrhyw offeryn - agored -** 1. Berwyn Owen, Llanrug, 2. James Jones, Llanrug. **Unawd Cerdd Dant - agored -** 1. Nerys W. Jones, Caernarfon. **Emyr - dros 50 oed -** 1. Katie Wyn Jones, Llandwrog, 2. Dan Williams, Carmel, 3. Ithel Parry, Y Ffôr a J.W. Enston, Bontnewydd. **Deuawd - agored -** 1. Sian Gibson a Rhian Owen, Llanberis. **Prif Unawd - unrhyw unawd Gymraeg:** 1. John Eifion Jones, Garndolbenmaen, 2. Raymond Jones, Caernarfon a Dan Williams, Carmel. **Wythawd:** 1. Ysgol Gynradd Llanrug.

ADRODD: Meithrinfa a Dosbarth Derbyn:

1. Rhian, 2. Gareth, 3. Delyth ac Iwan. **Babanod Canol ac uchaf:** 1. 2. Ryan, 2. Catherine a Ceren, 3. Lynne, Mathew, Delyth, Llŷr, Iwan. **Safon 1 a 2:** 1. Nia Griffith, 2. Tammy Jones, 3. Lowri Angharad. **Safon 3 a 4:** 1. Iestyn, 2. Adrian ac Ian, 3. Judith a Ffion. **Parti Cyd-adrodd dan 14 oed:** 1. Parti Dewi. **Dosb. 1, 2 a 3:** 1. Elen Roberts, 2. Gwawr Owen a Siwsan Morris. **Dan 16 oed:** 1. Carys Ellis Jones, Y Ffôr. **Cyd-adrodd:** 1. Graig Lwyd, Carmel. **Adroddiad Digri:** 1. Eyrn Jones, Llangwm. **Prif Adroddiad:** 1. Nora Roberts, Ynys MMôn, 2. Meirion Williams, Eglwysbach, 3. Eyrn Jones, Llangwm. **Tri deimensiwn: Dan 8 oed:** 1. Iwan Rhys Parry. **n 12 oed:** 1. Tudor Jones, 2. Iola Non Thomas, 3. Meical Owen. **Agored:** 1. Peter Lloyd Jones, 2. Rhodri ap Llwyd, 3. Gwion ap Llwyd ac Owain ap Gruffydd.

GWNIO: Dan 8 oed: 1. Nia Gwawr Jones, 2. Catrin Ann Williams, 3. Elen Wyn Parry a Nia Griffith. **Dan 12 oed:** 1. Nicola Jones, 2. Anwen Parry, 3. Nicola Jones ac Anwen Parry. **Agored: dilledyn i blentyn:** 1af ac 2il. Jane Jones, Gladwyn.

GWAU A CHROSIO: Agored: Caridgan neu siwper i blentyn: 1. Bethanne Williams a Hilda Jones (Caergybi), 2. Mary Roberts, 3. Eirwen Rowlands.

COGINIO: Dan 12 oed: 1. Anwen Parry a John Elwyn Williams, 2. Anwen Parry, 3. Judith Pugh Jones. **Dan 16 oed:** 1. Manon Llwyd Evans, 2. Gwenno Parri, 3. Manon Llwyd Evans. **Agored: Meringue:** 1. Carys

Parry, 2. Margaret Vaughan Parry. **Agored: Gwin Cartref: Gwin Coch:** 1. Bethanne Williams a Margaret V. Parry, 2. Eirianwen Thomas, 3. Margaret V. Parry. **Gwin Gwyn:** 1. Margaret V. Parry, 2. Hefin Williams (Rhiwlas), 3. Margaret V. Parry. **ARLUNIO: Dosbarth Meithrin:** 1. Jacqueline, 2. Jane, 3. Nia. **Dosbarth Derbyn:** 1. Luned Mair Jones, 2. Sioned Mair Jones, 3. Ruth Wood. **Babanod Canol ac Uchaf:** 1. Iwan Rhys Owen, 2. Dylan Lloyd Jones, 3. Iwan Rhys Parry. **Safon 1 a 2:** 1. Gethin Parry, 2. Rhys Llwyd Elis, 3. David Morris. **Safon 3 a 4:** 1. Adrian Evans, 2. Nerys Powell, 3. Tom Reagan. **Dosb. 1 a 2:** 1. Emma Bernard, 2. Iona Pritchard, 3. Karen Jones. **Dosbarth 3 a 4:** 1. Meirion Owen (3a), 2. Gillian Vaughan Jones (3a), 3. Alison Jones. **Dosbarth 5, 6 a 7:** 1. Rhianon Pritchard, 2. Mandy Price, 3. Heath Addie.

FFOTOGRAFFIAETH: Dan 16 oed: 1af ac 2il Sian W. Jones, 3. Delyth Hughes. **Agored:** 1. Ceridwen Williams, Glyn Meirion Williams.


RHYDDIAITH: Babanod Canol ac Uchaf: 1. Jonathan Davies, Caroline Jones, Iwan Llywelyn Grimvalds. **Safon 1 a 2:** 1. Tammi Jones, Lowri Angharad Roberts, 2. Iorwerth Gray-Parry, Aled Roberts, Aled Parry. **Safon 3 a 4:** 1. Adrian Evans, Nicola Jones, 2. Ffion Williams. **Dosb 1 a 2:** 1. Eurgain Haf Evans, Sion Llwyd Elis, 2. Catrin Llwyd, Carys Owen.

BARDDONIAETH: Safon 1 a 2: 1. Lois Pritchard, Lowri Angharad Roberts, Mark Wyn Jones. **Safon 3 a 4:** 1. Lowri Williams, Sian Wyn Jones, Ffion Williams, Ian Parry, Colin Jones.

ENGLYN YSGAFN: 1. Richard Jones, Llanfechell. **TELYNEG:** 1. Glenys M. Pritchard, Abergele. **PARODI:** 1. Mair Huws, Llanrug. **YSGRIF:** 1. Gwilym MMeredudd Jones, Lerpwl a Dewi Tomos, Rhostryfan. **SGETS WREIDDIOL:** 1. Mrs I. Butler, Tan-y-coed. **TELEGRAM:** 1. Atal y wob. **Ail ar y Fedal Ryddiaith:** Gwilym Meredydd Jones, Lerpwl, £5.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bob un a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i lwyddiant yr eisteddfod.

Y PRIF LENOR A'R PRIF FARDD



Enillydd y Fedal Ryddiaith, Bryn Jones o Lanberis ac enillydd y gadair R.E. Jones o Garmel. Mae Bryn ar ei flwyddyn gyntaf fel athro. Daeth yn agos iawn at y fedal y llynedd. Newyddiadurwr a chyn-chwarelwr, wedi ymddeol, yw R.E. Jones. Ef enillodd gadair Llanrug y llynedd. Dyma ei bedwaredd cadair ar hugain.



Swynwyd pawb yn yr eisteddfod gan berfformiad y genethod yma o'r ddawns flodau yn ystod seremoni cyflwyno'r fedal a'r gadair. Hyfforddwyd hwy yn yr Ysgol Gynradd gan Mrs Anwen Owen a Mrs Heulwen Evans.

MENTRO I'R DE



Peth braf yw cael gwireddu hen goel – sef bod croeso yn y cymoedd. Dyma yn union a brofwyd gan dri ar hugain o blant Ysgol Gynradd Llanrug ar eu hymweliad â Thon-yr-efail benwythnos yn ôl. Doedd dim yn ormod o drafferth i rieni Ton-yr-efail wrth gartrefu plantos Llanrug am dridiau.

Gemau pêl-droed a phêl-rwyd oedd yr esgus dros drefnu'r daith gyfnewid a chafwyd gemau difyr yn erbyn tair o ysgolion y de.

Bore Sadwrn roedd bron pob gêm o unrhyw fath wedi ei gohirio oherwydd y dilyw mawr! (gan

gynnwys gêm Abertawe ar y 'Vetch') ... ond fe chwaraeodd hogia dewr Llanrug yn erbyn Ysgol Pont Siôn Norton ac ennill o ddwy gôl i ddim. Cafodd y genethod gêm dan do ac ennill o 8-6.

Bore Sul ymlaen i Don-yr-efail am yr ail gêm – y bechgyn yn ennill 5-3 mewn gêm gyffrous iawn a'r genethod yn colli 11-2. Cafwyd disgo bywiog dros ben yn neuadd pentref Ton-yr-efail ar y nos Sadwrn – mor fywiog nes i un o blant Ton-yr-efail daro ei ben ar ôl baglu, ymateb un o'r mamau oedd yn gwyllo'r holl syrcais oedd "Wel ... they do do run

around see luv!"

Colli fu'r hanes yn Ysgol y Creigiau, y bechgyn o 4-0 a'r genethod o sgôr fwy!

Yn ystod y penwythnos cafodd y plant gyfle i ymweld â Chanolfan Hamdden Abertawe a'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Ond, beth oedd yn nodweddiadol o'r holl daith oedd y modd y mae'r cyfeillgarwch rhwng y ddwy ysgol wedi blodeuo, ar ôl egino flwyddyn yn ôl.

Roedd deigrin neu ddau wrth ffarwelio â Thon-yr-efail ond roedd sawl gwên yn cyfarch dad a mam ar ôl cyrraedd adref yn saff.

LLANRUG (parhad)

GWELLHAD BUAN: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs J. Hughes-Roberts, Parc Villa sydd wedi derbyn triniaeth i'w llygad yn ddiweddar.

ADDYSG Y GWEITHWYR

Mae'r dosbarthiadau'n dechrau ar ôl y toriad, nos Lun, Hydref 31 am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. Bydd y cyfarfod cyntaf ar y thema 'Beth yw taflegrau Cruise a Pershing'. Croeso i aelodau hen a newydd.

CYNNYRCH YR EISTEDDFOD

Y Parodi Buddugol ar Glychau Cantre'r Gwaelod

O dan Big Ben a'i glychau
Mae ffyliaid – criw go fawr
Yn trin a thrafod deddfau
Drwy ddadlau fesul awr.
Trwy ofer esgeulustod
Y criw yng 'nghiwr' y dól
Aeth gleision Magi Thatcher
I'r Senedd hon yn ôl.

Yr S.D.P. ac eraill
Yn lleisio barn yn llym,
A'r holl undebau Llafur
Yn bygwth streic â grym.
Rhyddfrydwyr balch yn hollti
A disgyn rhwng dwy stôl,
Mae gleision Magi Thatcher
Yn falch o fod yn ôl.

Ond gan fod popeth drosodd
A'r lecsiwn yn y co',
A phawb yn mynd o gwmpas
Ei fusnes yn ei fro.
Bydd rhai yn dal i weithio
Gan 'nelu at un gôl –
Sef profi fod 'rhen Fagi
A'i Senedd fawr yn ffôl.

O cân 'rhen Blaid, ymfroestia
Na wyla ddagrau'n lli,
Bydd awr dy fuddugoliaeth
Yn foment fawr i mi.
Cei fod yn sicir wedyn,
A Chymru yn dy gôl,
Na ddaw 'rhen Fagi Thatcher
I Senedd "Hon" yn ôl.

MAIR HUGHES
LLANRUG

Y DELYNEG FUDDUGOL

CLOCH

Sain clychau â'm tywys
Yn fwyn, fel awel,
Drwy'r nudden sydd rhyngof
A'r dyfroedd tawel.

Hudo'n dyner wna 'i chân –
Fythol ddihalog,
Drwy hydled anialwch
I'r porfeydd gwelltog.

Ei hatgof â'm cynnal
Drwy bob trychineb
Cyn imi orffwyso
Mewn tragwyddoldeb.

GLENYS M. PRITCHARD
Abergele

O'R DIWEDD!

Wedi blynyddoedd o ddisgwyl, dechreuodd y gwaith o adeiladu palmant ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug.



AR WERTH

3 beic addas i blant 7 oed a hŷn.
Ffôn: Felinheli 670861.


Camera Zenith – £29.
Mrs Williams, 11 Cremlyn, Bethel.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

LLANBERIS YN CYRRAEDD YR OES FODERN

"Wyt ti isio hwn?"
"Ydw plis. Yda chi'n gwybod ble mae'r bensal?"

"Edrycha ar y ffenest tu ôl i ti, o dan y papur newydd."

Agorodd mam baced melyn ac arian o de, a gwagio'r dail i'r tun cad i gadwai ar y silff ben tân, a phasio'r papur i mi. Gwahanais yr un gwyn yn ofalus, oddi wrth yr un arian. Agorais ef allan yn wastad ar ochor bwrdd y gegin, a gafaelais yn y bensal.

"Mam, ma' hi'n rhy dywyll. 'Newch chi ola'r lamp?"

"Aros di funud, does dim lle i ti'n fanna. 'Dwi isio hwylio bwrdd i gael te. Cad dy bapur tan wedyn."

Rhoddais y papur a'r bensal ar lantal lydan y ffenest. Cododd mam y lamp olew o ganol y seiddbord i ganol y llian gwyn roedd hi eisoes wedi'i daenu ar fwrdd y gegin. Tynnodd y ddau wydr, tanio matsen, a chododd golau gwan dros yr ystafell, golau oedd yn rhy wan i gyrraedd y corneli. Fel hyn yr oedd hi bob tro y tywyllai'r gegin, a dim ond ar ochor y bwrdd y gallem ddarllen, ysgrifennu, darlunio neu chwarae gêm.

Ond, fel yn Llyfr Genesis, bu goleuni. Daeth 'lectric i Lanbêr. Dyna gyfnewid. Dyma'r amser y darfyddodd straeon bwganod oherwydd mae'n anodd credu fod unrhyw un wedi gweld ysbryd yn y pentra ar ôl i drydan ddisodli nwy yn yr ardal.

Roedd bron pawb, nid yn unig yn prysuro i roi trydan yn y tai, ond yn cymryd diddordeb mawr yn y cynlluniau i oleuo'r pentra. Byddai'r dadlau weithiau bron yn troi yn gweryla, oherwydd awch ambell un i gael lamp y stryd o flaen ei dŷ ef ei hun. Lampau gas oedd cyn hyn, a byddai William Robaich Llnau Ffordd yn mynd o gwmpas bob gyda'r nos hefo ysgol fach ar ei ysgwydd. Sodrai hon yn erbyn braich y lamp, a dringai i fyny i agor y drws bychan gwydr cyn tynnu lifar tu fewn. Lledai golau gwan o'i amgylch fel y disgynnai i lawr i adael ynys ddiniwed o'i ôl fel y cerddai i ffwrdd i'r gwyll.

Daeth gyrr o ddynion i wneud tyllau hefo caib a rhaw, a chodi polion ynddynt, hefo nerth braich a chefn. Dyn mawr, mawr oedd y giaffar. Safai yn awdurdodol rhyw ddeg llath i ffwrdd, ac o'i bocad wasgod tynnai allan linyr pwysau

byr. Dalai hwn i fyny o flaen ei wyneb, cau un llygaid ac â'i fraich rydd, amneidio ar y gweithwyr i sythu'r polyn i'r naill ochor neu'r llall cyn iddynt lenwi'r twll o amgylch ei fôn hefo cerrig a phridd. Roedden ni blant yn ein hafiaeth yn gwylio'r holl brysurdeb, ac wedi i'r gwaith gael ei gyflawni dyna olau da oedd gennym i chwarae allan, ar ôl iddi nosi.

Tomi Lloyd a weiriodd Llwyn Du. Brawd ieuengaf mam oedd o, ac yn gweithio yng ngorsaf drydan Cwm Dyli. Ei ddiddordeb ar y pryd oedd gwneud setiau wireless gartre. Roedd un ohonynt yn ein tŷ ni, bocs a'i wyneb ar osgo, a falfiau mawr yn sefyll yn rhes ar ei ben. Ambell i nos Sul deuai o Feddgelert i'n gweld ar ôl capel. Wedi tipyn o swper byddai rhaid clirio'r bwrdd i dynnu perfedd yr hen set allan, oherwydd ni fyddai ef byth yn fodlon ar ei pherfformiad er ein bod ni'n eithaf hapus. Ar ddau fatri roedd hi'n rhedeg, un mawr sych ac un gwydr gwlyb. Fy nyletswydd i oedd mynd â'r olaf i siop Peter Angel i'w newid bob hyn a hyn. Hoffwn Yncl Tomi yn fawr. Roedd o'n dda hefo hogia ac yn berchen amynedd difesur. Gadawai i mi ei wyllo yn gweithio, a gadawai i mi wneud ambelli "goil" neu osod y "dials" ar wyneb y bocs gogwyddedig.

Nid peth hawdd ydy weirio hen dŷ. Ydych chi erioed wedi ceisio rhoi switch ar wal laith a phlastar. Gan weithio Sadyrnau a chyda'r nosweithiau, yn araf, aeth trwy'r cyfan. Mawr ein diddordeb ni yn dewis y gwahanol gelfi, pa lamp a pha switch i'w rhoi yn y parlw'r a pha un yn y gegin neu'r llofft. Gorffennwyd y gwaith, ac i gloi'r cyfan, rhedodd Yncl Tomi weiren ddaear o'r bocs ffiws yn y lobi, i'r tap dŵr, tu allan. Yna daeth gweithwyr N.W.E.B. (credaf mai dyna'i teitl bryd hynny) i redeg gwifrau o'r polyn, a gosod "cable" plwm trwm i lawr y barclod llechi oedd ar wyneb y tŷ, ac i mewn i'r bocs ffiws. Dyna falch oeddem. Roedd y gegin bron fel Blackpool ym mis Hydref, a rhaid oedd papuro a pheintio tipyn ar y tŷ, nid yn unig i gwblhau'r gwaith, ond nawr roedden ni'n gweld pob corneli. I mi, y fantais fwyaf oedd cael eistedd yn ôl yn gyffyrddus i ddarllen fy llyfrau.

Yn Haf '37 daeth sbel o dywydd poeth sych, fel eleni, i ben yn sydyn hefo storm enbyd un prynhawn. Wedi i'r glaw beidio, aeth fy mrawd



allan i lenwi'r teciall yn y feis. Clywodd fy mam a finnau sgrech ofnadwy a sŵn y teciall yn tolcan ar hyd llechi'r cefn.

Rhedais allan.

"Be sy'n bod arnat ti?"

"Dw i wedi cael sioc yn y feis. Paid â'i thetchad."

Roedd i'w liw o'n dechrau dod yn ôl. Safai mam tu ôl i mi.

"Sbiwch," meddai, "sbiwch ar y pryfaid genwair."

Ac yn wir, roedd pryfaid genwair ym mhob man, yn codi o dan y llechi ac o bridd yr ardd ar ochr y tŷ, cannoedd ohonynt. Welais i erioed gymaint o bryfaid genwair, i gyd yn gwingo nôl a 'mlaen, heb unrhyw obaith am ddihangfa.

Roedd "cable" plwm ar lechi'r ffrynt wedi cracio mewn plygiad yn y tywydd poeth, a phan ddaeth y glaw cariwyd y trydan gan yr hylif i lawr i'r ddaear, ac roedd y pryfaid genwair druan yn cael eu trydanu yn eu tyllau, ac yn ceisio dianc drwy ddod i'r wyneb.

Sychodd llechi'r tŷ ac aeth y llyngyrod, bob un yn ôl i'w wâl ei hun. Osgwn i beth oedd eu barn nhw am drydan!

Erbyn hyn, roedden ni wedi cael "wireless" newydd, a llun haul yn codi yn arwyddocaol ar ei hwyneb. Doedd dim angen y ddau fatri bellach. Rhywsut, fuo'r pentra erioed 'run fath wedyn.

Roedd Llanberis wedi cyrraedd yr oes fodern.

GORONWY OWEN

ENGLYN YSGAFN BEDDARGRAFF GOFODWR

I'r sêr a'r eangdera', - un â'i sbid
Yn sbydu pelltera';
Ar un daith i'r lloer nid â -
Yma'n awr mae o'n ara'.

LEN JONES
Pensisarwaun

CREFFT·ELIDIR

STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis


LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)



GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

DIOLCH: Dymuna Mrs Eluned Thomas ddiolch yn gynnes iawn i blant ac ardalwyr y pentref am y rhodd anrhydeddus a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad oddi ar staff Ysgol Cwm-y-glo ar ôl 26 mlynedd o wasanaeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Llwyddiant yn Sioe Bontnewydd – er bod cangau Brynrefail y lleiaf yn yr adran, cafwyd ymdrech frwd gan bob aelod i sicrhau y tlws am y flwyddyn. Fe gyflwynir y tlws yn y cyfarfod nesaf a cheir adroddiad yn rhifyn mis Rhagfyr.

CLWB Y MAMAU: Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd noson ddifyr dan arweiniad Mair Williams a Jennie Roberts mewn gornest 'Tri Gair Bach'. Enillwyd yr ornest gan Jackie Jones a Liz Thomas. Rhoddwyd anrheg y mis gan Audrey Roberts ac fe'i enillwyd gan Jinnie Williams. Darparwyd y te gan Mrs Hasson a Helen Roberts.

Dalier sylw fod y wibdaith flynyddol i siopau Caer wedi ei threfnu ar Dachwedd 19 – fe dderbynir enwau gan Val Davies a Carol Houston.

CLWB PEDWARUGAIN: Bydd y clwb fel yr arfer yn trefnu noson tân gwyllt ar Dachwedd 5 – bydd y cyfeillion yn casglu o dŷ i dŷ yn y dyfodol agos.

ENILLWYR MIS MEDI: Medi 2: 1. Eurwyn Williams, 2. Glyn Owen, 3. Dwynwen Owen. Medi 9: 1. Wil Hughes, 2. Jinnie Williams, 3. Maldwyn Jones. Medi 16: 1. Elwyn Jones, 2. Helen Jones, 3. Eifion Roberts. Medi 23: 1. Ann Jones, 2. Mrs H.J. Jones, 3. Carol Houston. Medi 30: Islwyn Jones, 2. Islwyn Williams, 3. Dilys Jones.

Ymddeoliad Mrs Eluned Thomas o Ysgol Cwm-y-glo:

Mewn cyfarfod Diolchgarwch yn yr ysgol ar Hydref 14 daeth nifer o rieni a phlant ynghyd i dalu teyrnged i Mrs Eluned Thomas.

Wedi dilyn cwrs yng Ngholeg y Santes Fair ym Mangor, cychwynnodd ar ei gyrfa fel athrawes yn Lerpwl. Bu wedyn yn Ninorwig a Phortmadog nes dod i Gwm-y-glo 26 mlynedd yn ôl. Mae felly wedi dysgu llw o blant Brynrefail, ac mae ein dyled iddi yn amhrisiadwy. Yr oedd Mr Llew Hughes yn bresennol ar ran y llywodraethwyr a Mr Cledwyn Williams y cyn-brifathro. Rhoddwyd gair o deyrnged ar ran y rhieni gan Mrs Sylvia Williams a Mrs Joanne Evans, a chyflwynwyd sieciau o ganlyniad i'r casgliadau a wnaed yn y pentrefi gan Maria Evans (y plentyn hynaf) a blodau gan Bethan Hughes (y plentyn ieuengaf).

Hefyd yn yr ysgol yn ystod y mis a aeth heibio, cafwyd cyfarfod o

bwyllgor athrawon a rhieni yng nghwmni Dr Gareth Roberts, Trefnydd Mathemateg yr Adran Addysg – gyda'r bwriad o wneud ymdrech i godi arian i gael cyfrifadur ar gyfer plant yr ysgol.

PROFEDIGAETH: Ychydig ar ôl i'r rhifyn diwethaf fynd i'r wasg daeth newyddion trist o farwolaeth un o feibion y pentref, sef Eirwyn Jones, o Seland Newydd. Does ond ychydig dros flwyddyn ers y croeso mawr a ddatganwyd yn yr 'Eco' pan fu Eirwyn gartref yn yr hen wlad a'r llawenydd mawr o weld y teulu oll yn ymgynnull. Profedigaeth erchyll iddo huno mor bell oddi wrth y mwyafrif o'i anwyliaid, ac mae ein cydymdeimlad dwys gyda'r teulu oll, ac yn enwedig gyda'r fam annwyl, Mrs H.J. Jones.

SEIAT DOSBARTH: Nos Fercher, Medi 28 cynhaliwyd y Seiat Dosbarth Flynyddol Unedig rhwng Dosbarth Deiniolen a Llanberis, yn Festri Brynrefail. Agorwr y mater sef 'Agoriad i'r Maes Llafur – Proffwydi Joel ac Amos' oedd y Parch W.R. Williams, Y Felinheli. Yr oedd y rhannau arweiniol dan ofal Mr John Owen, Cysegr a chyfeiliwyd gan Mr Elfed Roberts.

CYDYMDEITHAS Y BEIBLAU: Eglwys Crist, Llandinorwig oedd cyrchfan aelodau a phlant Eglwys Dosbarth Deiniolen eleni i'w Cyfarfod Blynnyddol cyd-enwadol. Cynrychiolwyd Eglwys Brynrefail yng nghyfarfod y prynhawn mewn datganiad llafar gan Ddosbarth Ysgol Sul Miss A.M. Williams. Yn cymryd rhan yr oedd Alwen a Caron Jones, Joanne Evans, Einir Gwyn, Jacqueline a Glenda Walters a Nerys Ann Williams. Yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn yr hwyr, cymerwyd y rhannau arweiniol a thraddodwyd yr anerchiad gan Mr Gwyn Hefin Jones. Casglwyd y swm o £12.60 gan Joanne a Maria Evans a'i drosglwyddo ar ran yr Eglwys i Gronfa Cymdeithas y Beiblau.

YR WYL DDIOLCHGARWCH: Pregethwyd yn yr oedfa o ddiolchgarwch fore Sul, Hydref 16 gan y Parch J.D. Roberts, Caernarfon. Yng nghyfarfod y prynhawn arweiniwyd mewn defosiwn gan Mr R.W. Evans, Ty'n Buarth yn cael ei ddilyn gan gyfraniad plant ac ieuencic yr Ysgol Sul dan arweiniad Mrs Carol Houston. Cymerwyd rhan ymhellach gan Miss A.M. Williams, Llys Arfon. Mewn cyfarfod gweddi a gynhaliwyd yn yr hwyr, cymerwyd rhan gan y Mri G. Wyn Williams, 3 Tai Orwig, Bertie Ll. Roberts, Llwyncoed Bach a Mr Elfed Roberts, Ffrwd Goch. Gwasanaethwyd wrth yr organ yn y cyfarfodydd gan Mrs Heulwen Evans a Miss Lowri P. Roberts.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

**Beth am ddod i
gystadlu i Eisteddfod
Dyffryn Ogwen?**

Manylion gan Emlyn Jones, Bethesda 600846.

**Neu beth am ddod i
fwynhau'r wledd yn
Ysgol Dyffryn Ogwen,
Bethesda, nos Wener,
Tachwedd 11 am 6.30
p.m. a dydd Sadwrn,
Tachwedd 12, 12.30 a
6.00 p.m.**

Lluniaeth ysgafn yn yr
ysgol bnawn Sadwrn

BYSUS BACH Y WLAD



Un o fysus bach y wlad yn mynd ag aelodau Cymdeithas Lenyddol Capel Coch am eu trip blynnyddol yn y flwyddyn 1923.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

NOSON GOFFI: Dymuna'r prifathro ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y Noson Goffi. Gwnaed elw o £247 tuag at Gronfa'r Ysgol. Diolch am roddion, cyfraniadau ac am bob cymorth wrth baratoi, ac yn ystod y noson.

EGLWYS SANTES HELEN: Bu cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Hydref 3. Y gŵr gwadd oedd Mr Larsen a chafwyd cwis. Rhoddwyd y te gan Mrs N.M. Pritchard, 4 Bryn Hyfryd a diolchodd Mrs A. Pritchard, Pensarn. Dymunwn yn dda i Mr Evan Hughes, Tŷ Newydd, Cae Hywel, sydd yn ymddeol y mis hwn o'i waith ym Mangor. Llongyfarchwn Mr a Mrs T.W. Griffiths ar fod yn daid a nain – ganwyd merch fach i John ac Olwen.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd cyfarfod ddydd Mawrth, Hydref 18. Nid oedd siaradwr ond cafwyd prawn difyr yn chwarae gêm 'chwilen'. Dymunwyd yn dda i deuluoedd amryw o'r aelodau sydd yn cwyno, ac hefyd i Emlyn Wyn, 7 Bryntirion am ennill dwy dystysgrif am chwarae tenis bwrdd. Hefyd i nai Mrs S. Jones, 2 Llys y Gwynt ar ddechrau ar ei yrfa ym Mhrifysgol Nottingham. Diolch i'r rhai a fu'n casglu ac i'r ardalwyr am eu rhoddion tuag at Wythnos yr Henoed yng Ngwynedd. Fe gasglwyd £26.30. Rhoddwyd y te gan Mrs N. Williams a Mrs M. Davies. Enillodd Mrs S. Lewis y raffl, rhoddedig gan Mrs N. Williams.

LLONGYFARCHWN Mrs S. Humphries, Y Winllan sydd yn 80 oed yr wythnos hon ac hefyd Mr Dilwyn John a Tomothy Jones, y ddau wedi

cyrraedd eu deunaw oed. Llongyfarchwn Nerys a Williar. Thomas, 12 Bryntirion ar enedigaeth merch fach, Elisabeth Claire.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Mary Elliott a gollodd ei thad yn frawychus o sydyn, ac hefyd i Mrs Williams a Nancy, 15 Bryntirion sydd wedi colli perthynas agos. Mae Miss E. Jones, Bron y Waun wedi colli modryb hefyd. Ein cofion atynt i gyd yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna deulu'r diweddar W.J. Williams, Cae Corniog ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a'u ffrindiau oll am eu cydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth lem. Hefyd hoffem ddiolch i Mr Mervyn Pritchard, Llanberis am drefnu popeth ac i staff ysbyty Bryn Seiont am eu gofal caredig. Diolch yn fawr.

Dymuna Mary a Tony Elliott, Crud y Wawr ddiolch yn fawr iawn i'w cymdogion a'u ffrindiau am bob cymorth ac arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli tad Mary.

LLUCHIO'R 'L'

**O Stryd-y-dŵr yn Llanberis cewch weled,
Maud Jos yn mynd 'fath â Jet,
Ac Alan a'r genod yn swatio,
A gafael yn dyn yn eu het.**

**Mae Maud erbyn hyn yn ddreifar,
Rhaid i'w gŵr druan wyllo ei gâr
Mae'n grêt am referio a pharcio
Ac mae'n gambliar go lew ar y car.**

**Mi grwydrith i fama a fancw
I Landudno, i'r Rhyf a Llanbab
Ac mae'n siŵr na fydd hi yn fodlon
Nes cyrraedd tŷ mam yn Rhosgad.
(Ffrind da)**

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFTWYR LLEOL



Un diwrnod ym mis Hydref daeth Mr Cledwyn Williams, cyn-brifathro Ysgol Gynradd, Llanrug atom i'r ysgol. Bu'n awr ddifyr yn gwrandio arno'n sôn am ei blentyndod a'i fywyd ym Methel o'r dauddegau ymlaen.

Sgwrsiodd Mr Williams am addysg, gwaith a chrefydd ac hefyd y bob a'r cymeriadau hynod bryd hynny. Teimlwn i ni ddysgu llawer am Yr Efail, a'r Crydd, ac am y gemau tymhorol 'roeddau nhw'n eu chwarae cyn yr Ail Ryfel Byd. 'Roedd yn ddiddorol gwrandio arno'n disgrifio gemau fel Gêm Capiâu, Marblis, Cylchyn, Top a Chwip a Bwa a Saeth. Rhybuddiodd ni am beryglon chwarae Bwa Saeth, a'n

siarsio i beidio.

Trwy holi Mr Williams, bu'n gyfle i ni gael gwybodaeth fanwl am wisgoedd, ffyrdd a thrafnidiaeth, y chwarel a'r amryw wasanaethau cyhoeddus. Buasai'n od heddiw gweld y meddyg yn mynd o gwmpas y cleifion ar gefn beic.

O gymharu ddod â heddiw, 'roeddau ni'n teimlo mai ardal dlawd iawn oedd hi - ffustion a chlocsiau; cap stabal a barclod bras; uwd, tatws a bara llaeth, tatws pum munud a swper chwarel. Ffordd bynnag, nid oedd Mr Williams i'w weld yn teimlo'n anhapus am y cyfnod. Edrychai'n hapus iawn yng nghanol ei atgofion, a mwynhad oedd i ninnau eu hail-fyw yn ei gwmni.



Dyma "Yr Hen Ysgol" ym Methel sydd nawr yn ddau dŷ. 'Roedd mam William John Gruffydd yn mynd i'r ysgol yma. Ei fam ef oedd y disgybl mwyaf disglair a welodd y prifathro yn yr ysgol erioed. Pan agorwyd yr ysgol ym 1864, yr oedd 71 o ddisgyblion yno. Erbyn 1880, pan ddaeth G.R. Hughes yn brifathro, yr oedd enwau yn agos i 150 o blant ar y llyfrau, ac yr oedd yn rhaid cael adeilad mwy.

Ym 1881 yr oedd yr adeilad newydd yn barod. Dyma ddywed y prifathro yn ei ddyddlyfr:

October 30th 1881

"Today commenced work in our new school buildings, with which the children seem to be as delighted as ourselves."

Erbyn blynyddoedd cyntaf yr ugeinfed ganrif yr oedd rhif yr ysgol tua 180. Adeiladwyd llawer o ystafelloedd at yr ysgol yn 1910-11. Yr oedd yn rhaid cau'r ysgol am gyfnod o bymtheng mis i wneud y gwaith. Dyma ddyfyniad o ddyddlyfr y prifathro:

8

September 5 1911

"The formal opening of our new school took place this afternoon by Lady Ashton Smith to whom I had the honour of presenting at the door a silver gilt key procured with subscriptions of the scholars, staff and a few friends."

Yn ystod y ganrif hon aeth rhif y plant i lawr mor isel â thua hanner cant, ond erbyn heddiw mae rhif yr ysgol yn debyg i'r hyn oedd ddechrau'r ganrif. Yn y blynyddoedd diwethaf mae cegin a neuadd fawr ac adran newydd i'r babanod wedi cael eu hadeiladu yn yr ysgol.

TLAWD

Tlawd yw dyn heb dir i'w osod,
Tlawd yw dyn heb do yn gysgod,
Tlawd yw dyn heb fwyd na dillad,
Tlotach ddyn heb gar na chariad.

HYDREF

Hydref ddaeth, a'r haf a giliodd,
Hydref ddaeth, a'r dail a gwmpodd,
Hydref ddaeth i wisgo'r brynau,
Yn ei fantell frith o liwiau.

HEN ATGOFION

W.J. GRUFFYDD YN DDISGYBL
GALLUOG

Yr oedd William John Gruffydd yn ddisgybl disglair iawn pan oedd yn yr ysgol. Y mae y Prifathro wedi ysgrifennu fel hyn ...

County Scholarship Examination
February 5th 1894

"Six children from this school had attended the examination held on the 20th ultimo. In the list which came to hand today, two of our boys J. Griffith and W.J. Gruffydd occupy the first two places out of the 66 who sat."

Former Pupils' Success
October 27th 1899

"Out of the first batch of our scholars who won Scholarships at the Caernarfon County School, two - W.J. Gruffydd and Gwendoline J. Hughes" (Merch y Prifathro) "have again won County Exhibitions of £20 a year for three years. The former has entered upon his course at Oxford and the latter at Aberystwyth. This is all the more gratifying as only five exhibitions were awarded between the Intermediate schools of the County."

July 9th 1906

"Mr W.J. Gruffydd, M.A. (Oxon) has just been appointed Assistant Lecturer in the Celtic language at the University College, Cardiff."



W.J. GRUFFYDD 1881-1954

Ar fur ein hysgol ni y mae y llun hwn o wr enwog o Fethel o'r enw William John Gruffydd. Bu yn ddisgybl yn Ysgol Bethel o'r flwyddyn 1884 hyd at 1894. Enw'r Prifathro adeg honno oedd Mr G.R. Hughes.

"Yn nyddiau W.J. Gruffydd dyma sut yr oedd plant Ysgol Bethel yn cael eu dysgu. Dyma ddyfyniadau allan o ddyddlyfr y Prifathro, sy'n dangos pa mor anodd oedd dysgu plant o Gymry mewn Saesneg. Iaith na ddeallent ond ychydig arni."

August 13th 1880

"It is disheartening to find that notwithstanding all efforts to the contrary, the children continue to be very Welshy in their talk." Mae'n ddiddorol sylwi yn adeg plentyndod W.J. Gruffydd fod y plant yn yr ysgol ym mis Awst, amser ein gwyliau haf ni. Ar Ebrill 13eg 1888 mae Prifathro'r ysgol yn ysgrifennu:

"Admitted four children in course of the week, all of them being English - an almost unprecedented occurrence in the history of the school. I sincerely wish that they may convert some of my children over into their own tongue, rather than they should follow the multitude and learn Welsh!"

October 31st 1881

"Their knowledge of the English language continues so limited in spite of all our efforts to improve it."

Yna ar Ragfyr 14eg mae'r Prifathro yn ysgrifennu:

"The manner in which the children of the upper standards render the matter of Aesop's Fables in English is sometimes extremely laughable ..."

Er bod Saesneg y plant yn ddifrifol mae y Prifathro yn ysgrifennu ei ddyddlyfr ef i gyd yn Saesneg.

Haiku

"Cerdid yr hen chwarelwr

Ffrwydriad -
Y graig yn hollti
Angau.

CEFNOGWCH
EIN HYSBYSEBWYR

CYWAITH PLANT DOSBARTH 3 a 4 YSGOL BETHEL

MYNWENT LLANDDEINIOLEN

Llanddeiniolen hir ymarhous,
Llanddeiniolen a'r hedd parhaus,
Llanddeiniolen ddu dy Ywen,
Llanddeiniolen fud dy Awen.

OFN

Ofn ysbrydion yn y brigau,
Ofn cysgodion ar y muriau,
Ofn y nos ar ben y grisiau,
lasau oer i lawr ein cefnau.



LLAIS YR YWEN

"Yn Llanddeiniolen wrth yr Eglwys
..."

"Rydw i'n hoffi'r hen le yma.
'Rydw i wedi bod yma am gannoedd
o flynyddoedd. Beth amser yn ôl
daeth rhyw ddynion yma a rhoi
cadwyni amdanaf rhag i mi ddisgyn.
Mae'r ysgol sydd yn agos i'r eglwys
wedi cau ers peth amser ac 'rydw i
yn colli swm y plant o'r pellter. Does
yna ddim llawer o synau yn y
fynwent, dim ond lleisiau pobl
ambell dro a cnul cloch yr eglwys."

"Rwyf i yn gallu gweld bob bedd
yn iawn o'r fan hyn. 'Rwy'n gweld
bob bedd yn iawn o'r fan hyn.
'Rwy'n cofio W.J. Gruffydd yn
edrych arnaf ryw ddydd, ond
heddiw gallaf weld ei garreg fedd ac
un John a Jane ei dad a'i fam, Elwyn
ei frawd ac Edith a Ceridwen ei
ddwy chwaer. Y mae bedd William
John Gruffydd yn wahanol i'r lleill i
gyd. Carreg gyffredin fawr ydyw ac
ysgrifen wedi ei osod arni. Erbyn
heddiw, y fi sydd yn edrych ar fedd
W.J. Gruffydd ac nid ef sydd yn y
lle yma yn edrych arna i."

"Siglaf yn y gwynt ym mynwent
Llanddeiniolen. Meddyliaf am
gyrff yr holl bobl sydd wedi marw.
Gwelaf hogyn a hogan ifanc yn
mddydd mawr heb feddwl am ryw
dydd mawr oedd am ddod. I
ddweud y gwir, yr wyf wedi cael
llond bol ar weld yr un olygfa bob
munud ond fedra i ddim cerdded i
ffwrdd - coeden wyf, coeden
wenwynig, ac 'rwyf rhy hen a
rhywbryd mi gwmpaf i lawr."

"Yr wyf yn gweld bedd William
John Gruffydd ac yn ei adnabod
wrth weld siâp y garreg. Mae yna
lawer mwy o feddau yr wyf yn eu
gweld ond ddim yn eu nabod mor
dda. Lawer gwaith 'rwyf wedi gweld
eirch yn cael eu rhoi yn y ddaear a
phobl yn wlo drostynt."

"Mis ar ôl mis
Blwyddyn ar ôl blwyddyn,
Pobl yn dod,
Pobl yn mynd,
A rhai yn arôs."

RHES 'R ERW

Gwelwch oddi wrth y diagram
mai yng nghanol tai Rhes 'R Erw, y
mae Gorffwysfa a Tŷ Popty cartref
W.J. Gruffydd. Mae'r stryd o 18 o
dai cerrig yn cychwyn wrth y
Swyddfa Post. Ei hyd yw 135 o
fetrau.

GADAEI YSGOL

Wedi clywed 'Cerdd yr Hen
Chwarelwr' aethom i feddwl am y
math o waith yr hoffon ni ei wneud ar
ôl gadael yr ysgol. Rhown restr o'r
gwahanol waith a apeliai atom.

MECANIC A.A.

Bore pwysig oedd hi'r dydd Llun
braf hwnnw pan neidiais o 'ngwely'n
llawn hyder i ddechrau gweithio am y
tro cyntaf.

Mecanic A.A. Fedrwn i ddim
disgyn, ac ar bigau'r drinol
cyrhaeddais y bop. Sut brobol
oedd nhw tybed? Doedd dim rhaid
poeni o gwbl. Cefais groeso
ardderchog. Wedi tipyn o dynnu
coes, fel mae'n arferiad hefo dyn
newydd, a darllen y rheolau, es allan
gyda'm cyd-weithiwr Dafydd.
Fasech chi ddim yn dymuno gwell
pardner. Hen foi clên dros ben, a
mecanic penigamp. Dysgais y rôps
gydag o.

Prysur fu'r diwrnod hwnnw, a'r
faniau melyn yn ôl a blaen drwy
gydol y dydd. Cefais fy ngalw allan
sawl gwaith, unwaith cyn belled â
Chaer, a hynny i fatri fflat.

Hoffais y gwaith yn fawr yn
enwedig cyfarfod a helpu pobol.
'Roedd yn bleser gweld y rhyddhad
ar eu hwynebau wrth i'r fan felyn
gyda'i llythrennau du A.A. ar ei
hochr, gyrraedd atynt. Teimlwn yn
ofnadwy o bwysig.

Es i 'ngwely'r noson gyntaf
honno'n flinedig ond yn hapus, ac O!
y llawenydd a deimlais ddiwedd yr
wythnos wrth afael yn dynn yn amlen
prydfwrth fy nghyflog.

COF PLENTYN

FY NHAD

Dad neis yw fy nhad, bob amser yn
hapus. Nid yw'n clywed yn dda iawn.
Rhaid rhoi'r teledu ymlaen yn uchel
iddo ei chlywed.

Coedwigwr ydi dad. Mae dros y
môr ar hyn o bryd yn dewis coed i'w
torri i lawr. Ond pan mae adref mae'n
ddoniol gyda ni.

Dyn tal ydi dad, a gwallt byr - ddu
tew yn cuddio'i ben. Pan mae'n cribo
ei wallt mae'r blew yn sefyll yn syth i
fyny fel brwsh neu goliwog. Hoff
fwyd dad yw curry poeth ac ella dyna
pam mae ei wallt yn codi. Mae'n hoffi
gwneud pethau caredig heb neb
wybod.

Dyn neis iawn ydi dad.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

GORFFWYSFA RHES YR ERW



'Roedd W.J. Gruffydd yn byw
gyda'i fam a'i dad a'i nain a'i daid yn
Gorffwysfa, Bethel, ym mhlwyf
Llanddeiniolen, Sir Gaernarfon. Jane
Elisabeth Gruffydd oedd enw ei fam.
Jane Gruffydd oedd enw ei nain a
Tomas Gruffydd oedd enw ei daid.
Bu farw ei daid yn ifanc iawn. Am
hynny 'roedd rhaid i nain W.J.
Gruffydd anfon ei fam at ei nain a'i
thaid yn Cae Meta ger Llanrug i'w
magu. Dechreuodd ei nain ysgol
wnio yn Gorffwysfa. Daeth yr ysgol
yn boblogaidd iawn. Felly cafodd ei
nain ddigon o arian i dalu am y tŷ.
Ar ôl hynny priododd ei nain eto gyda
gŵr o'r enw William Parry. Daeth
Jane Gruffydd, ei fam, yn ôl i
Gorffwysfa.

Yn 1971 cafodd tabled lechen ei roi
ar fur Gorffwysfa i ddangos y fan lle
ganed W.J. Gruffydd, y gŵr enwog o
Fethel.

Taid

'Rydw i'n cofio fy nhaid yn
dda. Edward oedd ei enw. Dyn
tal, tenau oedd o, a hen sbort
iawn, bob amser yn adrodd
straeon digrif a chwarae criced
gyda mi.

'Roedd taid yn Gipar ar fforest
fawr yn Sir Fôn. Cefais nythod
adar a choncyrs ganddo. Llawer
gwaith y gwelais ffesant ar y
bwrdd. Scip y ci aeth i'w nôl wedi
i taid saethu'r aderyn. Ei brif
ddiddordeb oedd saethu i fwyta.
'Rydw i'n cofio gweld taid am y
tro olaf, yn sâl yn ei wely.
Ychydig ddyddiau wedyn bu
farw, a hiraeth ofnadwy gen i
amdano.

MYNWENT LLANDDEINIOLEN



Dyma lun o fedd William John
Gruffydd ym mynwent
Llanddeiniolen. Gerllaw mae bedd y
gweddi o'r teulu.

Edith Gruffydd 1859-1964


Ceridwen Gruffydd 1891-1968

Elwyn Gruffydd 1895-1964

Jane Gruffydd 1859-1927

John Gruffydd 1852-1929

Yr oedd W.J. Gruffydd yn hoff
iawn o ysgrifennu barddoniaeth.
Mae llawer ohonynt yn sôn am
fynwent Llanddeiniolen. Fel
buasech yn disgwyl mae rhan fwyaf
ohonynt yn drist. Un gerdd
ddiddorol yw "Lleisiau'r Fynwent".
Mae y bardd yn dychmygu ei fod yn
clywed lleisiau Dafydd, Elis Morris,
Rhoert Wiliam a Gwen y Goetre o'r
bedd yn adrodd fel maent yn teimlo.



LLANBERIS

Gohebydd – Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)

CLWB ERYRI: Hydref yw mis dechrau gweithgareddau Clwb Eryri, a'r nos Wener gyntaf yn y mis yng Ngwesty Gwynedd mwynhawyd araith ddifyr iawn gan Mr Ifan Parry, Ceunant, Llanrug. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd, Mr Stanley Owen, a chyfeiriodd at ddau o'r aelodau fu'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty sef Mr Harri Gwynn a Mr Tom Thomas, y ddau o Lanrug, a da oedd deall eu bod wedi gwella ac wedi dychwelyd i'w cartrefi.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchion yr ardalwyr i chi Ethel, Kenya, Stryd Fawr ar gyrraedd eich pen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Deëllir i chwi dderbyn amryw o gardiau a dymuniadau da ar y diwrnod hapus hwn.

Hefyd i Mr William Jones, Siop Padarn, ar gyrraedd oed yr addewid, 70 mlwydd, y mis diwethaf. Da yw deall ei fod wedi gwella ar ôl triniaeth i'r llygad yn ysbyty'r Bwth Caernarfon.

Y mis hwn cafodd 'Nain Top', Mrs Helen Edwards, Victoria House, ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Cyfarchion a llawer o gariad gan ei holl wyrion, ei dau fab Trefor ac Oliver a'r gweddill o'r teulu.

YN GWELLA: Yn ystod y mis hwn eto mae nifer o'r ardalwyr wedi bod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi dychwelyd gartref. Dymunir i'r oll ohonynt adferiad llwyr mor fuan ag sydd bosibl un ai yn eu cartrefi neu yn yr ysbyty – Mrs J.M. Jones, Maes Padarn, Mrs Sally Jones, Field Terrace, Mr William Jones, Storfa Padarn.

ENNILL MEDAL: Yn Eisteddfod Gadeiriol Llanrug enillodd Bryn, mab Mr a Mrs Stanley Jones, 60 Dol Elidir, y Fedal Ryddiaith. Wedi gadael y Brifysgol ym Mangor, lle y derbyniodd radd apwyntiwyd Bryn yn athro yn Ysgol Llanfawr, Caergybi. Llongyfarchiadau calonnog iawn i chi Bryn.

CROESO ADRA: Croeso adra Marian – ia – croeso calon yr ardalwyr i chi a John, eich priod – croeso'n ôl i'r hen gynefin. Gwyddom eich bod wedi gwneud diwrnod da o waith yn addysgu plant ar hyd y blynyddoedd, ac yr ydych yn haeddu seibiant. Erbyn heddiw mae'r ardal wedi newid rhywfaint. Wynebau newydd a welwch, ond cofiwch mae cnewyllyn bach o'r hen deuluoedd yn dal yma o hyd, a diolch am hynny, ac mae eich dyfodiad i Bryn Mel yn rhoi boddhad mawr. Dymunir i chi a'ch priod, lawer blwyddyn ddedwydd a iechyd da, ac y cewch bob mwyniant a difyrwrch yn eich ymddeoliad.

DATHLU PRIODAS AUR:



Ar yr ail ddydd Llun o'r mis, bu Mr a Mrs John Thomas, 61 Maes Padarn yn dathlu eu priodas aur. Y Sadwrn blaenorol dathlodd John Thomas ei ben-blwydd yn 80 oed (pwy fuasai'n

meddwl yntel! – mae o mor heini ac ifanc ei ysbryd). Llongyfarchiadau i chi eich dau – a llawer blwyddyn ddedwydd eto.

YMDDEOLIAD: Dymunir llawer blwyddyn ddedwydd a hapus i John Samuel Thomas, Bryn Aethwy ar ôl iddo ymddeol ar ôl 37 mlynedd o wasanaeth yn adran iechyd Gwynedd (DHSS) yng Nghaernarfon. Er mai cymeriad hynod o dawel yw – mae'n ddyn prysur iawn. Roedd yn flaenor yn Eglwys Preswylfa ers blynyddoedd lawer, ac yna wedi uno'r eglwysi mae'n cario'r un swydd bwysig yn Eglwys Capel Coch. Nid yn unig mae'n brysus gyda chyfarfodydd a gwasanaethau'r eglwysi ond mae'n ymwelydd cyson gyda'r aelodau y cleifion yn eu cartrefi ac hefyd yn yr ysbytai, ac mae'n barod i gymwynas bob amser, a'i garedigrwydd lle mae profedigaeth a galar yn profi ei deyrngarwch fel gwir Gristion. Dymuniad yr ardalwyr yw iddo gael hir oes a dedwyddwch, a bendith arno am ei waith Cristnogol mor fynych a hynny yn y dirgel. Cysur mawr inni hefyd yw deall fod ei frawd, y Parch Michael Thomas yn gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Aberystwyth.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod mis Medi gyda Mrs Hanna Jones, Tawel Lan yn llywyddu, estynnwyd croeso i Mrs Mair Jones ar ôl ei gwaeledd, cydymdeimlad â Mrs Mair Eluned Owen ar ôl iddi golli nai yn sydyn iawn; a llongyfarchiadau estynnwyd i Mrs Betty Jones, Plas Coch ar fod yn nain am y tro cyntaf. Cynrychiolir y gangen Sul y Cofio gan Mrs Martha Hughes a Mrs Gwen Edwards. Bu rhai o'r aelodau yn cynorthwyo Cyfeillion Cartref Pengwaith gyda'u harwerthiant blynyddol. Yn ystod y noson cafwyd araith ddifyr iawn gan Mrs Dorothy Jones, Cwm-y-glo ar ei gwaith gyda mudiad 'Dr Barnardo' yn y cylch. Dangosodd ffilmiau diddorol ac addysgiadol ar y gwaith a wneir gan y mudiad yma ym myd plant dan anfantais corfforol. Diolchwyd i Mrs Dorothy Jones gan Mrs Janet Davies, Stryd y Dŵr, ac eiliwyd y diolchiadau gan Mrs Dilys Jones. Darparwyd y cwpaned te gan Mrs Ann Owen, Mrs Helen Morris a Mrs Penri Thomas.

PENCAMPWR Y CAMERÂU:

Os ydych am unrhyw wybodaeth sut i drin eich camerâu a sut i gael lluniau perffaith, ewch i holi at y fferyllydd lleol. Mae Robert Gartside wedi ennill yr anrhydedd uchaf sydd bosibl gyda thynnu lluniau â'r camerâu. Ychydig iawn o'r cyffiniau yma sydd wedi llwyddo i gyrraedd y safon uchel yma, ec estynnir llongyfarchiadau iddo.

Y CLWB GWYDDBWYLL:

Llongyfarchiadau i aelodau'r Clwb Gwyddbwyll (Chess) ar ennill Cwpan Gwynedd. Cyfarfu'r aelodau ar nos Fawrth yng Ngwesty Erw Fair, ac mae croeso i unrhyw un ymuno â'r clwb. Ceir manylion gan yr arweinydd, Bill Gyles, Gwesty Erw Fair.

PERSONOL: Croeso'n ôl i Mr Richie Roberts (Penrhyn gynt) ar ôl ysbaid yn Sir Fôn gyda'i fab, Gwyn. Bydd ei ferch, Helen a'i phriod, yn rhoi pob gofal iddo yn Llanberis.

NYRSIO: Ar y Sul cyntaf o'r mis hwn dechreuodd Carys, merch hynaf Mr a Mrs Eurwyn Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch ar ei gyrfa fel nyrs yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Bydd colled i'r gymdogaeth, roedd mor barod ei chymwynas bob amser – mor siriol a dymunol. Fe welir ei cholli yn y capel. Roedd yn un o'r ffyddloniaid ymhob gwasanaeth yn Nant Padarn, ac yn cynorthwyo gyda'r cyfeilio pan oedd ei hangen.

Dymunir i chi bob llwyddiant yn eich gyrfa newydd Carys – bydd ein meddyliau gyda chi, a bendith arnoch.

GWAELEDD: Mae'r rhan fwyaf ohonom fel ardalwyr yn cofio Pierce Jones, a fu'n orsaf-feistr yn Llanberis. Symudodd i gartrefu yn y Felinheli a chafodd swydd ym mhorthladd Caergybi. Deëllir ei fod wedi derbyn triniaeth lawfeddygol ond yn awr gartre gyda'i briod. Dymunir iddo adferiad llwyr yn fuan iawn.

CYDYMDEIMLAD: Y mis diwethaf bu farw Mrs Annie Mary Roberts, yng Nglanmoelyn, Llanrug. Un o blant yr ardal yma ydoedd, wedi ei geni a'i magu a threulio flynyddoedd lawer yn Stryd y Dŵr gyda'i phriod a'i mab a'i merch. Cydymdeimlir â'i mab, Gareth, ei brodyr Robert Williams, Stryd y Faenol a'r Parchedig Hugh Llewelyn Williams, Danny Roberts a Stanley Roberts, ei neiaint, Mr Selyf Hughes, Mrs Jennie Thomas, Beech Bank a Mrs Bessie Jones, Stryd Cambrian.

Hefyd estynnir yr un cydymdeimlad â Mrs Valmai Brannagan, 17 Maes Padarn sydd wedi derbyn gwybodaeth am farw sydyn ei brawd Eurwyn yn Awstralia.

Cydymdeimlir â Mrs Nancy Riley, Ael-y-Glyn ar golli ei phriod John Riley. Daeth y teulu i fyw i'r ardal tua pymtheng mlynedd yn ôl, a bu Mr Riley yn gweithio fel plymar mewn ffatri yn yr ardal. Cymeriad tawel iawn ydoedd, yn foneddigaidd bob amser, ac yn hynod garedig wrth anifeiliaid. Ar un cyfnod byddai plant yr ardal yn cario eu hanifeiliaid bach ato i chwilio am feddyginiaeth. Bu'n wael ers tro ac wedi bod mewn ysbyty am beth amser, ond wedi gwella ddigon da i ddychwelyd gartref. Claddwyd ef ym mynwent Fonbridge, Lancashire. Cydymdeimlir â'i wedd, Kathleen y ferch a Malcolm y mab.

CLWB ANABL ERYRI: Mwynhawyd trip a swper ardderchog yn y Woodlands Hall, Edern gan aelodau Clwb Anabl Eryri. Trefnwyd y cyfan gan yr ysgrifennydd Mrs G. Owen a Mrs Bahs.

CASGLIAD SANT IOAN: Dymuna swyddogion Sant Ioan ddiolch i bawb, y casglyddion a'r cyfranwyr am eu cyfraniad yn ystod y casgliad o dŷ i dŷ a wnaethpwyd yn ddiweddar. Casglwyd yn ardaloedd Llanrug, Cwm-y-glo a Brynrefail, Nant Peris a Llanberis.

Y DIOLCHGARWCH: Yn ystod y dydd Llun penodedig ar gyfer diolch cynhaliwyd cyfarfodydd da ymhob eglwys. Yn Jerusalem, Capel Coch a Nant Padarn cafwyd cyfarfodydd ardderchog gan blant yr Ysgolion Sul wedi eu hyfforddi gan eu hathrawon Ysgol Sul.

NEWYDDION DA: Y dyddiau yma y mae digon o bryder o lawer cyfeiriad ynglŷn â dyfodol ein pobl ifanc. Wedi gadael yr ysgol mae'r dyfodol yn edrych yn dywyll iawn iddynt, ond diolch ddylem wneud am fod rhai o'r bobl ifanc yma mor ymroddgar a phenderfyniad ganddynt i lwyddo yn y pendraw.

Ar ôl gadael Ysgol Brynrefail, Llanrug aeth Peter, mab Mr a Mrs W. Glyn Roberts, 1 Rock Terrace i Goleg Technegol Bangor i ddilyn cwrs tair blynedd mewn 'Electronic Engineering'. Bu'n llwyddiannus ymhob adran o'r cwrs a gorffennodd gydag anrhydedd. Ar ôl gorffen yn y coleg roedd yn anodd iawn cael gwaith wrth ei fodd, er iddo wneud amryw o geisiadau. Ond o'r diwedd bu'n llwyddiannus iawn o gael ei dderbyn i'r adran technegol gyda'r Llu Awyr. Da iawn Peter, dyma ddechrau penigamp.

I'r Coleg Technegol ym Mangor yr aeth Ian, mab Mr a Mrs Brinley Roberts, Trigfa, 23 Stryd Goodman, i ddilyn cwrs dan nawdd 'The New

Training Opportunity Scheme'. Yn ystod y cwrs cafodd Ian brofiad allanol eithriadol gyda'r 'Brigad Dân' ym Mangor. Bu gyda'r tîm am ddeng mis a dysgodd lawer o bethau defnyddiol ac ymarferol. Cafodd gyfle i weithio fel 'Fitter Apprentice' gydag Adran Iechyd Gwynedd. Unwaith eto daeth llwyddiant i'w ffordd, cafodd wybodaeth y byddai gwaith sefydlog iddo gyda Chyngor Iechyd Gwynedd ar ôl iddo orffen y cwrs. Da iawn Ian, rydych yn lwcus iawn, iawn.

Gorffennodd Ruth, merch Mr a Mrs Lennon, Plastirion y cwrs 'Comercial' gydag anrhydedd, ac mae'n gweithio yn un o adrannau Cyngor Gwynedd.

Llongyfarchiadau i chwithau, Menai, merch Mr Hugh a Mrs Breda Hughes, Maes Padarn ar eich penodiad i swydd fel clerc gyda'r Gwasanaeth Amaethyddiaeth. Un o gyn-ddisgyblion y Coleg Technegol Bangor yw Menai hefyd.

DIOLCH: Dymuna Ruth a leuan ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddiad.

Carai Beverley Pitts, 44 Maes Padarn ddiolch o galon i'w pherthnasau a ffrindiau am yr holl gardiau a rhoddion a dderbyniodd tra bu'n Ysbyty Gobowen yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Helen Wyatt Davies, Swyddog Mewn Gofal, a Staff Plas Pengwaith ddiolch i bawb a fu mor hael gyda'u rhoddion tuag at eu Diwrnod Agored a gynhaliwyd ar Hydref 15. Gwnaethpwyd elw sylweddol o £724.

CYWIRO

Ymddangosodd camgymeriadau yn Eco mis Medi yng ngholofn Llanberis. Ni roddwyd arian at y 'Gronfa Ddiarfygi' er cof am Mrs Batten ond at y Diabetic Association, ac ni ddaeth yr arian o'r casgliad at y Spastics ond o Gronfa'r Sefydliad.

Mae
G. JORDAN

**CEFN ELAN
LLANRUG**

wedi prynu
busnes

**ERIC GOVER
LLANBERIS**

I fenthyg
cymysgwyr
concrit, cludo
llwythi ysgafn,
clirio safleoedd a
sbwriel ac am
dywod, gro, brics
ynghyd â gwaith
trydanol fel o'r
blaen

Ffoniwch:
**CAERNARFON
3581**

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgyrn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

Rhoddwyd cryn sylw'n y wasg yn ddiweddar i'r ffaith fod enwau Cymraeg naturiol yn cael eu disodli gan enwau 'gwneud' Saesneg – a hynny'n arbennig o wir am yr ardaloedd rheini sy'n gyrchfan i ddringwyr a cherddwyr mynyddoedd. Yn wir mae ambell i enw Cymraeg wedi ei hepgor o'r mapiau O.S. swyddogol diwethaf, a'r enwau Saesneg hyn wedi eu gosod yn eu lle.

Problem sy'n wynebu cofnodwyr yr enwau Cymraeg hyn yw mai enwau ar lafar yn unig yw llawer ohonynt, ac mai prin iawn yw'r cyfeiriadau ysgrifenedig atynt mewn unrhyw ddogfennau swyddogol.

Gŵyr llawer fod Bwlch Maesgwm, Llanberis, wedi bod yn 'Telegraph Pole Valley' ers talwm iawn gan ymwelwyr, ond diolch i'r drefn, mae'r polion wedi eu llifo bellach, a gobeithio y gwelir diflaniad yr enw hefyd.

Ond beth am enwau Cymraeg ar rannau o'r ardal nad oes gan lawer o'r trigolion y syniad lleiaf ble maent?

Dyma rai enghreifftiau o enwau y byddai Chwilotwr yn falch iawn o wybod mwy amdanynt: eu lleoliad neu eu tarddiad.

Pant du – mae rhywle ar fynydd Cefn Du, oherwydd ceir traddodiad fod aderyn corff yn hedfan o amgylch y lle oherwydd i fam a'i baban marw gerdded drwodd un noson – lle na fyddai pobl yn cerdded fel arfer.

Clogwyn eiddew – rywle ar lannau Llyn Padarn.

Creigiau padell y brain – ar lethrau'r Cefn Du – yn ôl traddodiad dyma gartref y Tylwyth Teg; ond ble'n hollol mae'r creigiau?

Ble ar Foel Eilian mae **Gafllwr Widdan**?

Ble yn Chwarel Glynrhonwy mae **Gweirglodd Merched** a phwy oeddynt?

A phwy tybed oedd y **Doctor** a roes ei enw i **Lyn Doctor** yn afon Seiont islaw caeau chwarae ysgol Brynrefail; neu'r **Harri Parri** a roes ei enw i lyn ger Glanrafon, Pontrug?

Anfonwch air am unrhyw un o'r enwau hyn neu unrhyw enw diddorol neu anghyffredin arall yr hoffech wybod mwy amdano.

ERS TALWM – ETO FYTH!

Ymddiheuraf i'r to ifanc, sydd hwyrach yn syrffedu ar weld hen wyneb na olygant ddi iddynt hwy, ond mae "hen bobol" fel fy hunan, all fwynhau craffu i drio nabod y plant oeddynt blant hefo nhw.

Atgofion diddorol Goronwy Pant Du yn yr Eco rhyw ddau fis yn ôl â'm sbardunodd i yrru'r ddau hen lun yma. Sôn yr oedd am gychwyn yr Urdd yn Llanberis. Mi gredwn i mai trafod yr ail gychwyn y mae, ar drothwy'r tri degau. Mae'n rhy ifanc i gofio'r cychwyn cynta', rhyw 3 blynedd ynghynt.

I'n plith ni blant y daeth y cychwyn cyntaf yma. Grace Ann (Mosen) oedd yr Ysgrifennydd, a'n hunig gynheilydd oedd Mr Thomas, gweinidog y Wesleiaid, sydd hefo ni yn y llun. Ni chofiaf, ysywaeth, ddim am ein gweithgareddau, dim ond bod yn Festri Gorffwysfa, wedi perswadio Yncl Ben (y diweddar hoffus Ben Thomas) i wneud "côr" ohonom, i gystadlu yn Steddfod yr Urdd yng Nghaergybi, tua 1927. Ni chofiaf i ni gyrraedd Caergybi, gormod o "frain" a rhy ychydig "eosiad" hwyrach, i gael côr teilwng. Ond cofiaf ni'n dispedain canu "Tro i'r Wig" (Tra la la Gw-cw, tra la la gw-cw!) a "Chlychau Cantre'r Gwaelod".

Yn nes ymlaen, yn amser Goronwy, rhoed yr Adran ar seiliau cadarnach, pan oeddem ni wedi cyrraedd oed pobl ifanc, ac wedi mynd "allan i'r byd".

Ond dyma ni, yn y lluniau, ar waelod craig Tai Crismas, a'n baner hefo ni, wedi'n rhewi'n blant am byth ar ddau bostcard, a mwy nag un ohonynt wedi marw yn ifanc iawn cyn cael siawns i gyflawni eu haddewid.

M.P.



Aelodau o Urdd Gobaith Cymru, Cangen Llanberis 1926.



Baner Cangen yr Urdd Llanberis, 1926.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Mrs M. Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed. Ffôn: Llanberis 870030

LLONGYFARCHIADAU i Miss Enid Wynne, Llety Llwyd ar ei dyweddïad â Mr Gareth Lloyd Jones, Maesteg, Pwllheli. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc.

MARWOLAETH: Yn Ysbyty Môn ac Arfon, Medi 28, bu farw Mr Robert John Williams, Rhostryfan, brawd Mrs Mary Wynne, Gelliud. Cydymdeimlwn â Mrs Wynne a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Lola Butler, Ffion Williams, Annwen Parry, Aled Parry a Manon Ll. Evans ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Ardal.

Yn ddiweddar ymwelodd un o drigolion hynaf yr ardal, Mrs Nell Jones 9 Bryngwyn, i fyw i Hafan Elan. Dymuniadau da iddi yn ei chartref newydd.

Dydd Llun Diolchgarwch, Hydref 17, daeth cynulliad da ynghyd i Gyfarfod y Dydd yn Nhan-y-coed. Yn y bore cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi,

Y Parch W.O. Roberts, Mrs Katie Roberts a Mrs Megan Humphreys yn cymryd rhan. Yn y prynhawn cafwyd cyfarfod arbennig i'r plant. Anerchwyd y plant gan y Parch W.O. Roberts a chyfrannodd y plant eu hunain gyda'u gwahanol eitemau.

Y cyfeilyddion oedd Mrs Carys Lloyd-Evans a Miss Enid Roberts, Miss Roberts hefyd oedd y cyfeilydd yn y gwasanaeth boreuol. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch Llew Madog Jones, Penygroes, a'r cyfeilydd oedd Mrs V. Blanchard. Addurnwyd y capel ar gyfer yr Ŵyl gan Mrs Beryl Mai Jones a Mrs Catherine Vaughan Jones.

Treuliodd Annwen Parry a Ffion Williams ac eraill o blant yr Ysgol Gynradd benwythnos ddifyr yn Nhon-yr-efail. Mynd wnaethant i gynrychioli eu hysgol mewn gornest 'Bêl-rwyd'.


I Lydaw aeth Manon Llwyd Evans gydag eraill o Ysgol Brynrefail sy'n astudio Ffrangeg. Byddant hwy oddi cartref am wythnos arall. Hwyl fawr iddynt.

DEINIOLEN

C Gwasanaeth 24 awr –
A unrhyw bellter
B Eich rhedeg i'r Maes
S Awyr neu'r Porthladd
Ffôn: Llanberis
871591

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

CYMERIADAU HYNOD

AR ÔL darllen ysgrifau plant Ysgol Dolbadarn ar *Rhai o Gymeriadau Hynod Ardal Llanberis a mwynhau'r cyfan yn fawr iawn, cododd rhyw awydd ynof innau i chwilio a chwilota am rai eraill o'r cymeriadau yma, ac yn wir cefais fraw wrth ddarganfod y rhestr o'r cymeriadau difyr, doniol, a duwiol fu'n byw yn yr ardal, a'r rhan fwyaf ohonynt yn ferched. Dyma rai ohonynt y caraf roi dipyn o'u hanes i chwi o dro i dro.*

Siân Dafydd, Clegir
Siân Dafydd, Helfa Fawr
Modryb Mali, Cadi'r Cwmglas
Elspeth, Ddôl Tŷ Du
Elspeth, Hafod Lydan
Siân Huws, Blaen y Ddôl
Mari Thomas a'r Tair Gayney.

Carwn ddiolch yn fawr iawn i or-wyres Siân Dafydd, Y Clegir am y wybodaeth a gefais ganddi, ac am gyfle i ddarllen cofiant a ysgrifennodd ei thaid John D. Jones, am ei fam, Siân Dafydd. Rwyf yn sicr y cewch chwithau fwynhad mawr wrth ddarllen hanes bywyd y cymeriad cadarn yma.

SIÂN DAFYDD

Ganwyd Siân Dafydd mewn hen westy o'r enw Tŷ Nant yn Ffestiniog ar y 13eg o Chwefror 1788 a'i rhieni ydoedd Jannet a Dafydd William Lewis. Pobl gyffredin oedd ei theulu o bob ochr, rhai yn seiri cerrig. Saer cerrig oedd ei thad Dafydd W. Lewis. Roedd Siân yr hynaf o bump o blant - dau fab a thair merch. Bu yn aros gyda'i nain am ysbaid a darllenai ei nain gyfran o'r Beibl bob dydd ac wrth gwrs byddai Siân yn dysgu darllen gyda hi. Bedyddwyr selog iawn oedd y teulu. Symudodd y teulu i fyw i Hafod Fraith, ac yno ganwyd chwaer fach i Siân ac ar ôl yr ychwanegiad i'r teulu fe orfodwyd

iddi droi allan i wasanaethu a gweini'r byd, a chafodd weini gyda theulu parchus iawn mewn lle cyfagos i'w chartref.

Daeth llanc ifanc glân a gwridgoch i weithio i'r Chwarel gyfagos a'r lle yr oedd Siân yn gweini. Dafydd John Owen o'r Ddôl Tŷ Du Llanberis (cefnider i William Foulk Cae'r Frân). Roedd tua phedair ar bymtheg oed. Aeth i letya mewn ffermdy o'r enw Tan-y-grisiau, a dyma'r fan a'r lle y cyfarfu â Siân, a bu'r ddau yn canlyn ei gilydd am bedair blynedd ac (yn ôl y cofiant) "ac iddynt adnabod ei gilydd a'r adnabyddiaeth yma a barodd iddynt ymlynu mewn serch a chariad hyd angau."

Gorfu i rieni Siân ymadael â'r ardal a symud a chartrefu yn Abermaw, Sir Feirionnydd a dilynodd Siân ei theulu, ac yno ym mis Awst 1806 trwy drwydded priodwyd Dafydd John Owen, Ddôl Tŷ Du â Siân yn Eglwys Llanaber gan y Parch R. Parry gyda William Weldon o Lanberis yn dyst. Roedd Dafydd ei gŵr yn 24 oed a hithau yn ddeunaw a hanner.

Penderfynodd y ddau symud i fyw i ardal Llanberis a chawn hanes y daith o Ffestiniog i ardal Llanberis yn y rhifyn nesaf.

(i barhau)

CYNGOR CYMDEITHAS LLANBERIS

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Angorfa nos lau, Hydref 20 dan gadeiryddiaeth Mr Bert Parry.

O gofnodion mis Medi

1. Daeth gwybodaeth i law o'r Cyngor Sir i ddweud eu bod yn dal mewn trafodaeth â'r Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan ynglŷn â'r maes parcio rhwng y ddau lyn.
2. Mae Cyngor Arfon am drwsio'r ffens yn Stryd Goodman ac am roi ystyriaeth i gais y Cyngor Cymdeithas i roi'r tir gyferbyn â'r tai ar werth.

Cynllunio

Nid oedd gwrthwynebiad i'r isod:

1. Cegin ac ystafell ymolchi yn Green Bank
2. Ehangu'r siop a chynnwys becws

- yn Eryri House
3. Ehangu'r Bistro

Ffiniau'r Gymdeithas

Daeth gwybodaeth y bydd newid yn ffin y gymdeithas ym 1985:

Bydd y ffin yn symud o Glynrhonwy i Ben-y-llyn.

Bydd cwtogi ar nifer y cynghorwyr, 2 yn lle 3 presennol yn Nant Peris ac 11 yn lle 12 presennol yn Llanberis.

Anfonwyd llythyr i wrthwynebu cwtogi rhif y cynghorwyr.

Materion eraill

1. Gofyn i'r Cyngor Sir dorri coed sydd yn cuddio lampau.
2. Ail-agor y llwybr cyhoeddus o Stryd Warden drwy'r coed ac allan i'r ffordd fawr.
3. Dan arweiniad y Cynghorydd Tom

PLANT LLANBÊR



Dosbarth Ysgol Dolbadarn a anfonwyd gan Mrs Gracie Wheldon Jones, Rhos, Ffordd Haearn Bach, Penygroes.

Erstalwm roedd pawb yn ei hadnabod fel Gracie Lliwen Uchaf.

Pa flwyddyn dynnwyd y llun? Yr athro oedd y diweddar John Owen, Isllyn, Stryd Fawr, Llanberis, yn ddiweddarach Stryd Caernarfon, Y Felinheli.

WRTH DALCEN SIOP NEWTON



Criw o blant Stryd Newton a'r cylch wedi ei dynnu yn 1926. Rhes ôl: ?, ?, Myrddin Owen, 'Fish', Elfyn Owen. Rhes flaen: Gwen Foss (Owen gynt), Menna Byrne (Jones gynt), Dwynwen Pritchard, Nowi Maes Llwyn, Megan Maes Llwyn, Pricilla May Thomas, Jenny Hughes Coed a Michael Hughes ei brawd (erbyn hyn y Parchedig M. Hughes). Diolch i Menna Byrne, Aberhonddu am gael benthg y llun.

Jones mae'r cyngor am geisio tynnu cynllun ar gyfer 1984-85 i wella'r sefyllfa o lanbau'r pentref.

4. Pasiwyd i lanbau a pheintio o amgylch y Gofeb cyn Sul y Cadoediad.

5. Pasiwyd i ofyn i'r Cyngor Sir lanbau y llwybr cyhoeddus o ben y Ceunant Mawr i Bron Eryri, a rhoi giât mochyn ar y llwybr o'r Lanfa tua Pont Bala yn lle'r gamfa bresennol.

6. Codwyd problemau dŵr ym mhen

Stryd Llainwen a Ffordd Tŷ Du, a gofynnwyd i'r Clerc eu trosglwyddo i'r Cyngor Sir.

7. Gan nad yw'r Parc Cenedlaethol, yn ôl pob ymddangosiad, yn cymryd sylw o lythyrau y Cyngor yn cwyno ynglŷn â'r 'toiledau' ym Mwllch Llanberis, cytunwyd i anfon at Adran Iechyd Arfon ynghyd â chopïau o'r lluniau a fu yn rhifyn Hydref o 'Eco'r Wyddfa'.

PRACTICAL CREDIT SERVICES LTD

2 WELLFIELD COURT
CAERFFYNNON/WELLFIELD
BANGOR 353269

Ein cynrychiolydd newydd ar gyfer ardal
Llanrug/Llanberis yw

Mrs VERA PRICE
TANYGRAIG
CWM-Y-GLO

Ffôn: LLANBERIS 870550
Gwasanaeth Credyd Preifat a Chyfrinachol



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLLEN

Ffôn:
LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

BRINLEY ROBERTS

Peintiwr a
Phapurwr,
Glanhau
Ffenestri
a Mân Waith
Atgyweirio

**Ffôn: LLANBERIS
871101**

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)

CYDYMDEIMLWN:

Â Mrs K. Roberts, Derlwyn ar golli brawd, Dr Harry Evans o Sevenoaks, Kent (gynt o Fethel).

Â Mr a Mrs Gwynedd Parry, Bron Llewelyn ar golli eu mab bychan, Howyn Rhys.

Â Mr Gwilym Williams, Bod Hyfryd ar golli tad; a hefyd â Mrs Williams, Rhes Eilian ar golli brawd.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at a dymunwn wellhad buan i Mrs Hughes, 11 Bryn Golau sydd yn yr ysbty unwaith eto.

ADREF O'R YSBYTY: Gobeithiwn fod y rhai a fu'n cwyno mewn ysbtyai yn ddiweddar yn gwella ar ôl dod adref, sef Mrs Letman, Hollydale, Mr Robert Jones, Gardden, Mr Lleufer Pritchard, Canolfan Garpedi, David Coles, Bro Waun, Mrs Pearl Williams, Parc ac Anthony Marston, Blaen y Nant.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Eaglestone ar eu priodas arian, Hydref 15.

I Dylan Iorwerth, Cartrefle ar ei benodiad yn Ohebydd Seneddol B.B.C Cymru.

DYMUNIADAU GORAU i Iolo Huws Roberts, Bodrida, ar ei ymddeoliad.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Medi: 1. £40, Mrs E.A. Roberts, Pant Afon, 2. £25, Mrs M.L.I. Jones, Bryn Tawel, 3. £10, Miss Glenys Thomas, 13 Stâd Tŷ Hen.

YR URDD: Dechreuodd y tymor newydd gyda nosweithiau difyr iawn. Daeth Mr Rhodri Prys Jones atom i sôn am 'Yr Hen Waunfawr' gyda lluniau a sleidiau yn cymharu fel yr oedd pethau yma flynyddoedd yn ôl â fel y maent heddiw. Yr wythnos wedyn buom yn gweld y frigad dân yng Nghaernarfon, ac ar Fedi 12, daeth Mr Gwyndaf Jones, Llanrug i'r adran i ddangos ffilm ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Ar nos Fercher, Medi 19 byddwn yn mynd i'r pwll nofio yng Nghaernarfon.

Y cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau hanner tymor fydd ar Dachwedd 2il, pryd y byddwn yn paratoi ar gyfer noson Guto Ffowc.

Gobeithio y daw'r plant â hen ddillad a phapurau gyda nhw i'r cyfarfod.

Byddwn yn llosgi'r goelcerth a thanio'r tân gwyllt am 6.30 nos Sadwrn, Tachwedd 5ed yn y cae tu ôl i Bod Hyfryd drwy garedigrwydd Mr. R. ap Wyn Williams. Bydd cawl a chŵn poeth ar werth yn Neuadd yr Eglwys wedyn.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos lau Medi 23. Estynnodd y llywydd, Mrs

Gweneirys Jones, groeso cynnes i'r holl aelodau a mynegodd ei llawenydd o weld Mrs Greta Hughes yn bresennol ar ôl ei gwaeledd.

Llongyfarchodd ddwy aelod o'r gangen, sef Mrs K.W. Jones a Mrs Morus Elfryn ar eu llwyddiant yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd, a hefyd blant yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau.

Y wraig wadd oedd Jane Edwards, y nofelydd enwog o Fôn, a chawsom sgwrs ddiddorol iawn ganddi am ei gwaith.

Diolchodd Mrs Alma Jones iddi a hefyd i'r gwestwragedd, Miss B.M. Jones, Mrs M.V. Jones, Mrs A. Roberts, Mrs D. Roberts a Mrs C. Jones. Mrs M.V. Jones a enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs Miles.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun gyda Mrs C.A. Jones, y llywydd yn y gadair. Llongyfarchwyd Mrs Missen

ar ddywedd iad ei mab. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y mis diwethaf, a'u trafod. Cynhelir Cyfarfod Cyngor yr Hydref o Ffederasiwn Sefydliad y Merched yng Nghricieth nos lau, Hydref 20 a chynhelir Gŵyl Garolau yn Eglwys Llanddinorwig nos Fercher, Rhagfyr 7. Cafwyd sgwrs ddiddorol gyda sleidiau lliwgar, gan y wraig wadd Mrs Betty Marshall ar 'Coleg Denman' coleg Sefydliad y Merched.

Diolchwyd iddi gan Mrs Parry Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf, Cyfarfod Blynnyddol y Sefydliad yn y Festri nos lau Tachwedd 3.

CLWB GWYRFAL: Croesawyd yr aelodau yng nghyfarfod cyntaf tymor gan y llywydd, y Parch Trefor Jones. Cydymdeimlodd â'r teuluoedd oedd wedi dioddef profedigaeth a thalwyd teyrnged i'r ddiweddar Miss Powell, a Miss Rosa Hughes. Hefyd da oedd croesawu aelodau newydd, a rhai oedd wedi gwella yn ddigon da i ddod i'r cyfarfod cyntaf.

Mr Cynan Jones, Swyddog Gofal Cymdeithasol Gwynedd oedd y siaradwr. Rhoddodd sgwrs amserol a diddorol ynglŷn â'i waith, yn enwedig pan yn sôn am y ddarpariaeth ar gyfer yr henoed a'r methedig. Diolchwyd iddo gan Dr Miles. Rhoddwyd y raffl gan Mr Overy ac fe'i henillwyd gan Mrs Nesfield. Miss Matt Pritchard fydd y wraig wadd ar Hydref 20.

EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR: Cofiwch gefnogi'r eisteddfod eto eleni ddydd Sadwrn, Tachwedd 12, am 1 o'r gloch y prynhawn, a 6 o'r gloch gyda'r nos.

PRIODAS: Llongyfarchiadau i'r Parch John Glyn, Tŷ Gwyn, Stâd Tŷ Hen ar ei briodas â Sioned Higham, merch y

Parch a Mrs Vernon Higham, Caerdydd. Mae'r Parch John Glyn yn weinidog ar Eglwys Efengylaidd Gwyrfa'i sy'n cyfarfod yn Ysgoldy Moreia Waunfawr, a Mrs Sioned Glyn yn athrawes yn ysgol Friars, Bangor.

CANOLFAN WAUNFAWR: Noson arbennig i bawb o'r pentref - Traed Wadin yn perfformio ym Mryn Eirian nos lau, Tachwedd 17 am 8.30.

CLWB 100: Dyma enwau'r rhai buddugol am fis Hydref: 1. Glenys Jones, Rhandirmwyn, 2. Gareth Jones, Glyn Cerig, 3. John Huws Roberts, Pant Teg.

PLAID CYMRU: Noson agor tymor yn yr Afr, Beddgelert nos Wener, Tachwedd 25 yng nghwmni Parti'r Gerlan, Bethesda. Tocynnau gan Gwyneth Ellis, Glyn Awel.

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

O'R YSBYTY: Daeth Mr Andrew Griffith, Tan-y-bwlch o Ysbyty Môn ac Arfon wedi derbyn llawdriniaeth feddygol. Parhaed i wella.

I'R YSBYTY: Aethpwyd â Mr Robert Parry, Bron Fferam i Ysbyty Môn ac Arfon wedi iddo gael ei daro'n wael gartref. Dymunir adferiad buan iddo.

ARWAIN CYMANFA GANU: Llongyfarchiadau i Miss Annette B. Roberts ar ei gwaith yn arwain y Gymanfa Ganu yn Eglwys Llandinorwig ar Hydref 2 o dan nawdd y Gymdeithas Beibla, Deiniolen a'r Cylch. Dyma'r tro cyntaf i Annette arwain Cymanfa Ganu. Ein cofion at Miss Myra Foulkes, Dublin House, sydd wedi ei symud o Ysbyty Gallt y Sil i Ysbyty Bryn Seiont.

CYRDDAU DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn eglwys St Mair, Sardis a Dinorwig ar y Llun, Hydref 17 eleni. Cafwyd cyfarfodydd da.

CANOLFAN IEUENCTID: Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol nos Fawrth, Hydref 4 am 7 o'r gloch. Yn y gadair yr oedd Mr Hugh Thomas. Siomedig iawn, iawn oedd y nifer a ddaeth i'r cyfarfod, a gwaeth na hynny oedd y ffaith nad oedd un o swyddogion yr Ieuenctid o Gaernarfon yn bresennol.

Darllenwyd y fantolen am y flwyddyn 1982-83 ac yn y banc ar ddiwedd y flwyddyn yr oedd £351.97. Yr oedd gryn bryder ymysg y pwyllgor oherwydd fod diwedd wedi bod ar y Clwb Ieuenctid a hynny yn unig am nad oedd neb o'r Ieuenctid yn ei fynychu.

Rhoddwyd ar ddeall i'r ardalwyr fod Antur Ieuenctid Gwynedd yn mynd i ymgymryd â'r gwaith o beintio y Ganolfan i gyd am y swm o £150. (Pris y paent yn unig) cyn gynted ag y bydd y Swyddfa Addysg wedi rhoi'r sylw sydd angen i'r ffenestri.

Dangosodd rhai o'r ardalwyr gryn bryder ynglŷn â'r drafndiaeth ar y ffyrdd o Deiniolen i'r ardal, a'r difrod oedd yn cael ei wneud iddynt. Pasiwyd i ofyn i'r Cynghorydd Jacob James am gael cyfarfod hefo rhai o

swyddogion Arfon i gael trafodaeth am y gwaith o gau'r tyllau, ac hefyd ynglŷn â chyflymder y drafndiaeth, gan fod cyflymder ambell un allan o bob rheswm.

Talwyd diolchiadau i'r swyddogion a Mr Robert Hugh Thomas, Craigle am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Ailetholwyd y pwyllgor am y flwyddyn 1983-84 a swyddogion fel a ganlyn: Llywydd: Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir. Ysgrifennydd: Mrs Hanah May Roberts, Tŷ'r Ysgol, Trysorydd: Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir. Dros y pwyllgor: Marian Jones (trysorydd).

CYMDEITHAS UNDEBOL: Cynhaliwyd noson goffi yn y Ganolfan nos Wener, Medi 30 am saith o'r gloch er mwyn codi arian tuag at y Gymdeithas. Bu'r noson yn llwyddiant mawr, yr oedd y Ganolfan yn orlawn a rhaid diolch am hyn yn arbennig i Mr Tom Davies perchennog Bysiau Porffor Deiniolen am redeg bws o Glwt-y-bont i fyny i'r Ganolfan ac yna danfon pawb gartref ar ôl y cyfarfod. Diolch yn fawr Mr Davies.

Carwn hefyd ddiolch i bawb arall a fu mor barod ei gymwynas ac i'r rhai a fu'n gweithio mor galed rai dyddiau cyn y noson er mwyn sicrhau llwyddiant, am hyn rhaid talu teyrnged arbennig i'r llywydd sef Mrs Betty Peris Roberts, a da hefyd oedd gweld un o aelodau hynaf y Gymdeithas yn bresennol, sef Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian. Mae Mrs Jones dros ei phedwar ugain a da oedd ei gweld yn mwynhau ei hun.

Gwnaed elw o £143.30. Talwyd y diolchiadau gan y Ficer, y Parch Aled Edwards. Diolch yn fawr iawn i bawb. (Marian Jones, Trysorydd)

DRAENOG



Mae bys un o athrawesau Llanrug ar y pyls - yn ormodol felly - torrodd y peiriant mesur pwysedd yn y Ganolfan Hamdden o'i herwydd!

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

STORFA

Mace
**O.R. & M.
PARRY**
**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

BETHEL

Gohebydd – Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwig 670726)

CLWB Y MAMAU: Nos Fercher, Medi 28 agorodd tymor newydd y Clwb gyda nifer dda o aelodau hen a newydd. Mrs Siân Robinson roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Diane Sherlock.

Nos Fercher, Hydref 5 aeth nifer dda ar Daith Gerdded lwyddiannus iawn. Noddwyd y genod gan nifer dda o bobl a chasglwyd dros £50 tuag at anrhegion Nadolig y pensïynwyr.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Hydref 26 am 7.30 yn y Neuadd gyda Mr Michael Thomas y cigydd.

Cofiwch am y Ffair nos Wener, Hydref 28 am 6.30. Agorir y ffair gan Mr Arwel Jones, Llys MMyfyr. Bydd lluniau'r plant yn cael eu harddangos yno.

WYTHNOS YR HENOED:

Dymuna'r trefnydd, Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd ddiolch i'r casglyddion am gasglu o amgylch y pentref y swm o £65.13.

Y casglyddion oedd: Mrs Eluned Davies, Y Garth, £4.80½; Mrs Elizabeth Evans, Blaen Rhos, £8.88½; Mrs Bessie Ellis, 15 Cremlyn, £4.81; Mrs Mary Griffiths, Tre Gof, £7.77; Mr Stanley Griffiths, Tre Gof, £8.26; Miss Lea Thomas, Tan Lan, £10.25; Mrs Gwyneth Williams, Llain-yr-ardd, £2.81½; Mrs Eirlys Williams, 20 Y Ddôl, £4.49½; Mrs Rita Williams, Tan-y-cae, £1.78; Mrs Mary G. Williams, Gwylfa, £11.26½.

YMDDEOLIAD: Dymuna aelodau a phwyllgor y Y.M.C.A. ddiolch yn fawr iawn i Mr Wilf Williams, Carneddi am ofalu am y lle ers 9 mlynedd. Dymunir yn dda iawn iddo ar ei ymddeoliad.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Adrian Bennett, Bro Rhos ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd y ddau ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs T.A. Jones, Eithinog ar enedigaeth eu merch fach.

Hefyd i Mr a Mrs H. Hughes, Stâd Eryri ar enedigaeth mab, Dylan.

CÔR CADNANT: Yn dilyn yr adroddiad yn yr Eco y mis diwethaf cafwyd aelodau newydd i'r Côr. Mae lle eto felly cofiwch nos Sul yn yr Ysgol am 8 o'r gloch.

MERCHED Y WAWR: Y Rhingyll Eifion Jones, o Fangor oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod y gangen nos Fercher, Hydref 12 a chafwyd sgwrs fuddiol a diddorol ganddo ar 'Atal Troseddau'. Diolchwyd iddo gan Mrs Rita Williams. Gwestwragedd y noson oedd Mrs Bessie Ellis, Mrs Glenys Jones a Mrs Gwen Millar. Enillwyd y raffl gan Mrs Muriel Jones.

Llongyfarchodd Ann Hopcyn, y llywydd, Mabel ac Alun Jones ar enedigaeth eu merch fach.

Atgofir yr aelodau a fu ar y daith gerdded i fynd â'r arian i'r trysorydd, Mrs Mair Read, cyn gynted ag y bo modd.

Dr Dafydd Roberts, Tregarth fydd y gŵr gwadd yng nghyfarfod nesaf y gangen, sef 'Y Chwarelwr a'i Gymdeithas'.

CLWB Y RHOS: Agorodd tymor newydd y Clwb yn yr Ysgol nos Lun, Hydref 10, gyda'r noson yng ngofal Gareth Jones, 16 Tan y Cae. Cafwyd ffilmiau video ganddo ar Gynllun Trydan Dŵr Dinorwig. Nos Wener, Hydref 28 trefnwyd gan Mr Gareth Jones i aelodau'r clwb fynd i weld y Cynllun yn Llanberis. Bydd bysiau'n cychwyn o Glyn Rhonwy am 7 o'r gloch yn brydlon.

LLONGYFARCHION i Robert Alun Williams, mab Mr a Mrs Deiniol Williams, Cilgwyn ar ei benodi'n bennaeth Ysgol Gynradd Tremeirchion, Clwyd. Ar hyn o bryd mae Alun yn athro yn Ysgol Gynradd Llanrwst a bydd yn dechrau yn ei swydd newydd yn Ionawr.

CASGLIAD DIOLCHGARWCH: Casglwyd £12 tuat ag Ganolfan Oedolion Segontium yng ngwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Gynradd Bethel ddydd Mercher Hydref 19. Rhoddwyd sgwrs i'r plant gan y Parch W.R. Williams.

Y NEUADD GOFFA: Cofiwch bod Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor y Neuadd wedi ei drefnu ar gyfer nos Lun, Hydref 31 am 7.30. Rhoddir gwahoddiad arbennig i unrhyw un

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

DEIGRYN

Derbynias y gân fach dlos a dwys ganlynol oddi wrth Mr Elias Davies Elmin, Glanerch, Abererch, Pwllheli a chaniatâd i'w defnyddio yn fy ngholofn. Y mae'r gân yn hynod o amserol gan fod "Dydd y Cadoediad" mor agos eto eleni.

Deigrin bach yng nghornel llygad
Dyna'i gyd.

Arwydd yw o'r cydymdeimlad
Yn y byd.

Daw yn ôl bob dydd Cadoediad
I'n tristáu

Na ddiflanned hen arferiad
Y coffáu.

Abererch

Elias Davies

Yr ydym yn wir ddiolchgar i Mr Davies. Nid yn aml y clywir am Reolwr Banc wedi cyrraedd safon mor uchel fel bardd. Y mae Mr Davies wedi ennill llawer o brif wobrwon mewn eisteddfodau, am ei farddoniaeth. Y mae llawer iawn o'i englynion a cherddi wedi ymddangos mewn cylchgronau a phapurau. Yn ystod y rhyfel diwethaf bu yn gwasanaethu am bum mlynedd yn y Llynges. Heddiw y mae Mr a Mrs Davies wedi ymddeol ond yn dal yn brysur a defnyddiol yn ardal Abererch. Gobeithio y cawn ni gyfraniad eto gan Mr Davies. Diolch yn fawr iawn iddo.

Llythyr Dewi Jones 1947

Mis Tachwedd 1947 yr anfonodd Dewi Jones (Cwm-y-glo gynt) y llythyr canlynol i fy nhad o Los Angeles.

Annwyl Gyfaill,

Y mae Evan Thomas, Llanrug gynt, wedi cyrraedd yn ôl i Utica. Gwelais yn yr Herald ddarlun o fy hen gyfaill cu Evan Lloyd Hughes Llanberis. Cydweithiem ym Mhony Sied Glyn Ganol ers talm a drwg iawn gennyf ddarllen am ei farw. Cofiaf gôr meibion yn y bonc, a Dafydd Trevor Waunfawr yn un o'r tenoriaid a Jac Phil gyda'r bâs. William Wilson Jones oedd yn arwain a cherddor

sydd â sylw i'w wneud ynglŷn â'r Neuadd neu sy'n awyddus i helpu yn ogystal ag aelodau'r pwyllgor.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad â Miss Megan Hughes, Llys Orwig a'r teulu yn eu profedigaeth ar golli mam.

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

chwaethus ydoedd. Un awr ginio a'r Eisteddfod yn ymyl a chorau Padarn Roberts a Jonah Owen yn yr ornest cofiaf fod Wilson wedi llwyr anghofio popeth ond y canu. Ond canodd y corn un o'r gloch a Wilson yn parhau ymlaen gyda'r 'rehearsal' a Harry Owen bach Cwmnglo yn ceisio cael ei sylw trwy weiddi o hyd "Y mae'r corn wedi canu Wil." Dyma Wilson yn gwylltio a deud "Cau dy hen geg yr yda ninnau yn canu hefyd." Holtti blewyn a fyddai hi rhwng y corau hynny yn ôl geiriau Emlyn Evans gynt. Byddai tyrru mawr i'r cylchwylliau yn y dyddiau hynny yn Arfon a phawb yn selog dros ei gôr ei hun.

Cofion cynnes Dewi Jones

Eisteddfod Awst Y Wladfa 1947

Dyma ddau bennill o'r darn adrodd i bobol ifanc yn Eisteddfod Awst y Wladfa 1947, gan Idwal Jones.

"Ymadawiad Neli"

Ond peidiwch chwi pryderu bois,
Does eisiau bod yn drist:

Mae Daisy Jane yr anner flwydd
Yn wên o glust i glust.

Mae Jeremiah 'r asyn bach,
A'i garnau yn yr aer

Yn gweiddi "Tawn i'n manco bois,
Wel dacw hi'r hen chwaer!"

Daw'r hwyaid o'r corneli

A'r gwyddau bach o'r gwely
I weiddi, "Dacw Neli"

Yn uchel dros y ddôl.

Mae Daniel James y twrci,
A Jonathan y ceiliog dandi

A'r afar lwyd yn breffu –
"Mae Neli'n dod yn ôl."

PROFIAD MEWN YSBYTY

Dyn insiwrans prysur a llwyddiannus fu Mr T.W. Thomas, Berwyn, Llanrug ar hyd ei oes. Rhyw dri mis yn ôl cafodd driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor. Daeth adref wedi gwella yn dda iawn. Gofynnais beth oedd ei brofiad yn yr ysbyty. Atebodd fel hyn: "Y mae Mr John Parry Jones, Y Foel, Trallwng wedi medru cyfleu fy mhrofiad yn syml a chywir yn ei englyn a ystyriaf yn gampwaith." Yr oedd methu cysgu wedi bod yn brofiad arswydus i Mr Thomas.

Gwelais chwenychu golud – ond heno

Nid dyna f'awyddffryd –

Cael o afael fy nghlefyd

Nos o gwsg yw f'eisiau i gyd.

John Penry Jones

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa (Llanberis 871259)

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Ganolfan nos Lun Hydref 10 o dan lywyddiaeth Miss Marian Jones, yn absenoldeb y llywydd a'r is-lywydd. Cafwyd noson addysgiadol a diddorol iawn am y cymorth cyntaf gan y gŵr gwadd Mr O. Paul Jones o Gaernarfon. Talwyd diolch iddo gan Miss Marian Jones. Rhoddwyd y te gan Miss Kathleen Jones a Mrs Eirlys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Betty Wyn Davies. Fe'i rhoddwyd gan Miss Kathleen Jones. Bydd noson goffi yn cael ei chynnal yn ysgol Gwaun Gynfi ar Dachwedd 4. Cynhelir y cinio Nadolig ar nos Wener, Rhagfyr 9, yn y Foelas, Llanrug. Enwau cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda i Mrs Marian Wyn Williams, 4 Tai Caradog neu Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, Dinorwig.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Mary Wyn Jones, Ceris, ar gael ei derbyn i wneud cwrs gradd B.A. yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Athrawes oedd Mrs Jones ers blynyddoedd yng Ngwaun Gynfi. Dechreuodd ar y cwrs eleni. Pob llwyddiant iddi yn ei gyrfa.

Dymuna Mr a Mrs Tecwyn Williams, 15 Pentre Helen a'r teulu ddiolch yn garedig iawn i'w ffrindiau a'u cymdogion am eu holl garedigrwydd a'u cydymdeimlad ddangoswyd iddynt fel teulu yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, Mrs Ellen Roberts, a fu'n wael am rai blynyddoedd yn Ysbyty Geriatriaidd Bryn Seiont, Caernarfon. Diolch arbennig hefyd i'r gweinyddesau a'r oll o'r staff am eu gofal caredig tuag ati yn ei gwaeledd.

Dymuna Mr a Mrs William H. Morris, 1 Stryd Newydd, Bethel ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llw anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Mrs Mary Williams, 29 Hafod Olau ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y llw cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 eleni. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Morris Williams, Monawel, 3 Cynfi Terrace ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd, y cardiau a'r anrhegion, a dderbyniodd tra'n Ysbyty Môn ac Arfon. Hefyd diolch i'r meddyg teuluol a meddygon a staff Ward E.N.T. Diolch yn fawr.

WEA: Bydd dosbarthiadau nos dan nawdd y WEA yn cael eu cynnal yn Ysgol Gwaun Gynfi bob nos Fawrth o Dachwedd 8 ymlaen.

Bydd y Dr Llŷr Gruffydd, M.I.Biol. yn annerch ar Natur a'r Amgylchfyd.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Robert Gwilym Rowlands, 12 Pentre Helen ar ei fuddugoliaeth eto eleni yn cipio tarian am ei waith coginio mewn arholiadau. Dyma'r 3edd waith iddo gyflawni'r gamp yn erbyn rhai eraill o holl ysbytai Gwynedd dan nawdd Awdurdod Iechyd Rhanbarthol Gwynedd. Daeth yn ail hefyd yng nghystadleuaeth 'Tlws yr Wyddfa'.

Y SEINDORF: Nid yw'r Seindorf wedi cystadlu ar ôl bod yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd eu cystadleuaeth nesaf ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 19, yng Ngheirion ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru. Bydd 2 gystadleuaeth iddynt sef y Darn Prawf ac Emyr Dôn. Eu hyfforddwr proffesiynol fydd Mr R.J. Childs, Swydd Efrog. Pob lwc iddynt. Cawn weld y canlyniadau yn rhifyn nesaf yr 'Eco'.

CLWB 200: Hydref: 1. £25, Miss D. Williams, Llanrug, 2. £15, Mrs C.

Owen, Greenwich, Llundain, 3. £5, Mr I. Williams, Rhydfadog.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan, Hydref 3 gyda'r llywydd yn y gadair. Darllenwyd y llythyr misol a'r cofnodion. Cafwyd noson ddifyr iawn yn gwrrando ar Mrs Nancy Rowlands a Mrs Eirlys Williams yn darllen storiâu o'u gwaith eu hunain - storiâu a ddaeth â chanmoliaeth uchel i'r ddwy mewn cystadleuaeth yn ddiweddar.

Hefyd cafwyd sgwrs gan Mrs Marian Williams. Diolchwyd iddynt i gyd gan Mrs Rita Jones, Y Becws. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirian Jones a Mrs Eileen Jones. Enillwyd y raffl gan Miss Nancy Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 7. Bydd Mrs Vera Hughes, Bethesda (y VCO) yn bresennol. Cawn arddangosfa o debotiau a stondinau Moes a Phryn yn ogystal. Cynhelir Noson Goffi gan y Sefydliad ar Ragfyr 2, a gwasanaeth Carolau ar Ragfyr 7.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn y Ganolfan nos Fercher, 12 Hydref, gyda Mr Gwyn Parry yn y gadair. Addawodd nifer o aelodau'r gangen gynrychioli'r gangen mewn noson agor tymor ym Mhlas Gwyn, Cricieth y nos Wener ddilynol.

Lluniwyd rhaglen llawn gweithgareddau misol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd pedwar aelod yn cymryd rhan mewn cwrs yn Nhregarth ar Hydref 25, a chynhelir noson yng nghwmni Dafydd Iwan yn y Ganolfan, Tachwedd 9.

Enillwyd Clwb Cant mis Medi oedd - £10, Rhif 72, Miss L.L. Lewis, 11 Maes Gwylfa, £8.50, Rhif 16, Mr Hefin G. Jones, Tai Glanffynnon, Llanrug.

Enillwyd mis Hydref oedd: £10, Rhif 38, Miss Margaret Jones, Fferm Foel, Dinorwig, £8.50, Rhif 28, MMs Nancy Thomas, 62 Pentre Helen.

DARLLEIAD O'R GANOLFAN:

Bydd y BBC yn recordio rhaglen yn y gyfres newydd 'Piniwn' yn y Ganolfan, Deiniolen ar nos Fercher Rhagfyr 21. Rhaglen yw hon sy'n trafod pwnc llosg yr wythnos a cheir dau arbenigwr i agor y drafodaeth. Yna bydd rhyddid i gynulleidfa gymryd rhan a dweud eu barn.

Gobeithir cael cynulleidfa deilwng a brwd, a phawb yn awyddus i wneud y recordiad cyntaf o'r Ganolfan yn llwyddiannus. Y cadeirydd fydd Gwilym Owen.

CYMDEITHAS Y BEIBL:

Er garwed y gwynt a'r glaw roedd Eglwys Llandinorwig yn rhwydd lawn pnawn a'r hwyr, Sul 2 Hydref, ar gyfer cyfarfodydd gynhaliwyd yno dan nawdd Cangen Deiniolen a'r Cylch Cymdeithas y Beibl.

Yng nghyfarfod y pnawn, dan ofal Mr Ronald Wyn Roberts, Cefnywaun, cyflwynwyd eitemau gan blant Ysgolion Sul Brynrefail, Deiniolen, Dinorwig a Phenisarwaun. Yn ôl yr arfer roedd cyfraniadau'r plant o safon uchel, a llwyddodd Mr Roberts i gadw popeth i redeg yn rhwydd gan ychwanegu at fwynhad y cyfarfod. Cyfarchwyd y cyfarfod gan Mr James Munro, Penisarwaun, trysorydd newydd y gangen, a ddiolchodd yn gynnes i bawb gymerodd ran yn y cyfarfod gan dalu diolch hefyd i'r casglyddion a fu'n casglu o dŷ i dŷ at y Gymdeithas yn ystod Medi.

Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail, oedd yn llywyddu'r Gymanfa Ganu gynhaliwyd yn yr hwyr dan arweiniad Miss Annette Bryn Roberts, Dinorwig, gyda Mr Bryngwyn Griffith, Penisarwaun, yn cyfeilio. Cafwyd canu gwresog mewn awyrgylch deuluol ddefosiynol. Cyfeiriodd y llywydd at y cyd-ddeall arbennig rhwng yr arweinydd a'r cyfeilydd, gan eu llongyfarch ar eu

medrusrwydd, ac awgrymodd mai hon oedd y Gymanfa Ganu gyntaf o laweroedd y cawsent y fraint o wasanaethu ynddynt yn y dyfodol.

I GYFARCH BRENHINES CARNIFAL DEINIOLEN

O! deunw oll dan ganu
I gylchwyll bro Gwaen Gynfi
Ar ddydd coroni merch o'r fro
A defod y coroni
Mae'r plant, yr hen a'r canol oed
Yn disgwyl yr arwisgo
A gosgordd ein brenhines hardd
I'n boddio 'leni eto.

Dymunol yw'r cyfarchion
I'n hardd frenhines dirion
Mae'n llanw'r swydd ymhob rhyw
fodd
Yn raenus i'r ymylon
Gall hon yn wir gystadlu
Â Thywysoges Cymru
Mor fwyn a hardd ar ysgafn droed
A gosgordd hardd i'w charu.

Dymuno rŷn i Sharon
Deyrnasiad bro mor ffyddlon
I wasanaethu mewn boddhad
I bawb o gywir galon
Mae Sharon Jones a Tracey
Yn gweini'r dirion arni
A Donna Jones a Rhian Hughes
A'r goron i'w choroni.

Mae Tracey ac Elena
Yn gweini am y gora
A Sharon yn ei gwisg mor hardd
Yn cychwyn ar ei siwrna
I'r pwyllgor a'r gwesteion
Diolchwn oll o galon
Am drefnu dydd o lawen hwyl
I'n pentref a'i drigolion.

JOHN DAVID EVANS
Maes y Dref
Clwt-y-bont

Deiniolen
Gyda diolch oddi wrth Brenhines y
Carnifal, Deiniolen.

**GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF**

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch



CAERNARFON 3674

i drefnu amser

**IEUAN
WILLIAMS**

**Glanffrwd
DEINIOLEN**

Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd

* Teithiau Lleol a
Thramor

* Gwaith Contract

* Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol




**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

SCIPIAU TIM



o £16

**CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL**

LLANBERIS 871354

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

CYDYMDEIMLAD: Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mr Frank Jones, 24 Dôl Afon yn ei brofedigaeth o golli brawd yn Wrecsam.

DIOLCH: Dymuna Mr Frank Jones a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw deall fod Mr Frank Jones, 24 Dôl Afon yn gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

DYMUNA Mr Frank Jones ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedi dychwelyd gartref.

CROESO ADREF i Miss Ceridwen Hughes, Pool Street, ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

Anfonwn ein cofion cynhesaf a dymunwn lwyr wellhad buan i Mrs Nesta West, Craig-y-Don, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU: i Dilwyn Morris, Tan-y-graig a Neil Rowlands, Glan'rafon ar gyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Neil Rowlands ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

CLWB POBL Y CWM: Cyfarfu aelodau'r Clwb prawn lau, Hydref 6 a chafwyd cyfarfod diddorol yng nghwmni Mrs Mary Lloyd Williams, Llanrug. Rhoddodd sgwrs ar wahanol gymeriadau bu iddi gyfarfod yn ystod ei hymwelid â gwahanol ardaloedd y cylch. Diolchwyd iddi gan y llywydd, Mr Llew Hughes. Rhoddwyd y te gan Miss E. Hughes, Tan-y-graig a Mrs E. Hughes, Hyfrydle.

Mrs R.H. Parry roddodd y raffl a enillwyd gan y llywydd.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaethau i ddathlu gŵyl ddiolchgarwch yn y Tabernacl ddydd Sul. Pregethwyd yn y prynhawn gan Mr Harold Parry Jones, Penygroes, a chymerwyd rhan yn y cwrdd gweddi yn yr hwyr gan y diaconiaid, Mr Llen Parry, Mr Hugh Jones a Mr Llew Hughes.

DIOLCH: Dymuna Mrs Eluned Thomas, ddatgan ei gwerthfawrogiad i blant, ardalyr, llywodraethwyr a staff yr ysgol am y rhodd anrhydeddus a dderbynidd ar achlysur ei hymddeoliad oddi ar staff yr ysgol ar ôl 26 mlynedd o wasanaeth.

YR YSGOL: Ar ôl y Gwasanaeth Diolchgarwch, Hydref 14 cafodd y plant, staff yr ysgol, a staff y gegin, ynghyd â chryn nifer o rieni'r plant gyfle i ddymuno'n dda i Mrs Eluned Thomas, aelod o'r staff a ymddeolodd yn ddiweddar. Bu Mrs Thomas yn dysgu yn Lerpwl ar ôl cwblhau ei chwrs yng Ngholeg y Santes Fair ym Mangor. Symudodd oddi yno a bu'n dysgu am gyfnod yn ysgolion Dinorwig a Phorthmadog cyn dod i Ysgol Cwm-y-glo. Wrth gyflwyno siec i Mrs Thomas gan Maria Evans, disgybl hynaf yr ysgol, cyfeiriodd Mr E.T. Jones y prifathro am wasanaeth ffyddlon a chydwybodol Mrs Thomas i'r ysgol am 26 o flynyddoedd, a diolchodd yn gynnes iddi. Cyflwynwyd siec a chafwyd gair ymhellach gan Mrs Sylvia Williams, ar ran cyn-ddisgyblion yr ysgol, a phentrefwyr Cwm-y-glo. Ar ran cyn-ddisgyblion a phentrefwyr Brynrefail cyflwynwyd siec a chafwyd gair gan Mrs Joanne Evans. Roedd Mr Llywelyn Hughes, un o Lywodraethwyr yr ysgol, a Mr Cledwyn Williams, cyn-brifathro'r ysgol yn bresennol, a chafwyd gair o

ddiolch gan y ddau. Cyflwynwyd blodau i Mrs Thomas gan Bethan Hughes, disgybl ieuengaf yr ysgol. Diolchodd Mrs Thomas yn gynnes am y rhoddion ariannol, ac am y dymuniadau da gan y rhai a siaradodd.

Nos Iau, Hydref 6 cafwyd cyfarfod o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Gwahoddwyd y Dr Gareth Roberts, Trefnydd Mathemateg yr Awdurdod Addysg i annerch. Cafwyd sgwrs gan y Dr Roberts ar Gyfrifiaduron Addysgol yn yr Ysgolion Cynradd, a'r defnydd y gellir ei wneud ohonynt yn y cwrs addysg. Yn absenoldeb y llywydd, Mrs Pat Jones, llywyddwyd gan Mr E.T. Jones, y prifathro, a diolchodd i'r Dr Roberts am noson ddiddorol ac addysgiadol.

DIOLCH: Dymuna Eirian a Dyfrig (Llanfairpwll) ddiolch o galon i bawb am y cardiau ac anrhegion a dderbynwyd ar enedigaeth Bethan Haf, wyres fach i Mr a Mrs Idwal Williams, Elidir View yw Bethan Haf.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyn, Elidir View a Dwynwen, Tros-yr-afon, Brynrefail ar eu dyweddïad.

YN YR YSBYTY: Drwg iawn gennym glywed fod Miss Annie Parry, Craig-y-Don wedi cael damwain yn ei chartref ac sydd yn awr yn Ysbyty Môn ac Arfon. Hyderwn y caiff lwyr wellhad.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher cafwyd sgwrs gan un o'r aelodau sef Miss Mat Pritchard ar hanes teulu Glynllifon a daeth â'r cyfnod yn fyw iawn i ni yn ôl ei harfer. Cawsom hanes bywyd y ferch o'r Eidal, Maria Stella, a briododd yr larll pan oedd hi ond tair ar ddeg oed, ei hail briodas â bonheddwr o Rwsia a'i brwydr hir i geisio profi ei bod yn ddisgynydd o deulu brenhinol Ffrainc. Diolchwyd iddi gan Mrs Watkins.

Mrs Evans a Mrs Gwyneth Chick roddodd y te a gwobr y raffl a enillwyd gan Mrs Iris Rowlands. Trefnwyd i ni fynd i Oriel Eryri nos Lun i Noson Lawen i'w theledu gan y BBC.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Tachwedd 16, pryd y ceir sgwrs ar 'Hel Achau' gan Mr Gareth Haulfryn Williams, aelod o staff archifdy Gwynedd.

BETWS GARMON

PRIODAS ARIAN: Llongyfarchiadau i Rhys a Marian Williams, Y Llythyrdy ar ddathlu 25 mlynedd o fywyd priodasol Hydref 18.

BEDYDD: Gyda'r Parch Harri Parri, Caernarfon yn gwasanaethu yng nghapel Salem ddydd Sul, Hydref 23 bedyddiwyd Emma Louise, merch fach Mr a Mrs Gwilym Owen, Ystrad Isaf.

CÔR A CHERDDORFA CWM-Y-GLO, 1909



Diolch i Mrs Mair Williams, Elidir View, Cwm-y-Glo, am y llun. Mae Mrs Williams yn adnabod un ferch yn y llun, sef Mrs Roberts, (Min-y-Don gynt). Beth am ragor o enwau?

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.


Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh Development Agency

Tŷ TRWYDDEDIG



**LLETY
CAEATHRO**

Ffôn: Caernarfon 4753


(ar y ffordd newydd Caeathro-Bontnewydd)

Prydau o 7.00pm. Yn awr yn cymryd archebion ar gyfer partïon Nadolig a blwyddyn Newydd.

Ar agor ar gyfer Cinio Nadolig

Ffoniwch Mrs Eirlys Birch am fanylion pellach

CROESAIR TACHWEDD



AR DRAWS

1. '.... Lân' (5)
5. Mae'r hyn sydd wedi ei gynnwys mewn pwdin amhur yn berffaith! (5)
8. '....' mryd, a gwared fi Rhag culni o bob rhyw'. (5)
9. Arwydd o lwyddiant eisteddfodol - yn y gwallt! (5)
10. Mwni'n troi'n enillion (5)
11. Pleidleisio (5)
12. 'Et .. Brute' (2)
13. Llog, miniog (7)
17. Gorchymyn i fod yn ddistaw (3)
18. '...' meddai Wil wrth y wal. (3)
20. Goruchwyliwr yn y chwarel (7)
24. Anedd (2)
26. Cân unigol (5)
27. Gwastraffu (5)
28. Ymgeisio (5)
29. 'Penwaig' (5)
30. Ffoi (5)
31. Y weithred o rwbio sailm ar rywbeth (5)

I LAWR

1. Ffrwd (7)
2. Stiwd (8)
3. To ystafell (6)
4. Ystafell fechan i gadw bwyd a llestri (6)
5. Mae 1 Ar Draws yn llawn o hyn (6)
6. Anfonodd Cynan hwn 'ar neges fach i Gymru lân' (4)
7. Nain ddeheuol (5)
14. Budd (3)
15. 'Ar ... tymhestlog teithio'r wyf' (3)
16. Hap anifail (3,5)
19. Rhodfa ddeiliog yn Eifionydd (3,4)
21. Er bod 100 ar ôl enw'r bachgen nid yw'n hen (6)
22. Rhwystr (6)
23. Adfywiad (6)
24. Newid cyfeiriad (5)
25. Ymlid (4)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. Anfonwch eich cynigion at Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobwr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

ATEBION CROESAIR HYDREF.

AR DRAWS: 1 Papur; 3 Teledu; 7 Dur; 8 Ochr; 9 Tafodau; 11 Hanes; 13 Diddan; 15 Eog; 17 Nythu; 20 Acer; 21 Truenus; 22 Olaf; 24 Diog;

- 27 Uno; 29 Anial; 30 Blawd; 33 Dadroddi; 34 Ffon; 35 Dig; 36 Buddiol; 37 Pedol.
- I LAWR: 1 Perffaith; 2 Proffes; 4 Lefain; 5 Di-dranc; 6 Udo; 10 Us; 12 Goleuni; 14 Union; 16 Arogl; 18 Bro; 19 Pur; 23 Adnodau; 25 Iawndal; 26 Parodi; 28 Planed; 31 Od; 32 Egr.
- ENILLYDD: Mrs M.S. Jones, Tŷ Croes, Ty'n Lôn, Caergybi, Ynys Môn.

O BANTRI BETH

Gwin y Mis
Gwin Eirin Ysgaw

3lb ysgaw
3 lb siwgr
1 galwyn o ddŵr
burum a nutrient

Tynnwch yr ysgaw oddi ar y brigau yn lân a rhoi galwyn o ddŵr berw ar eu pen. Ar ôl iddo oeri i tua 70 gradd F ychwanegwch y burum a'i adael am 3 niwrnod gan droi'r gymysgedd yn ddyddiol.

Wedyn hidlwch y cyfan dros y siwgr mewn bwced a'i adael felly tan ei bod yn gweithio'n iawn, ac wedyn ei roi mewn demi-john i orffen gweithio.

Mae'n bosibl y bydd y gwin yma yn eitha melys. Os am win sychach rhowch lai o siwgr.

Mae'n rhaid cadw'r gwin yma am o leiaf 6 mis ar ôl ei botelu.

BRYNREFAIL (parhad)

MARWOLAETH: Yng Nghartre'r henoed Plas Pengwaith, Llanberis, Medi 21 bu farw Mary Alice Jones, gweddwr diweddar Robert Jones, Tŷ Coch, Brynrefail yn 81 mlwydd oed. Brodor o Gwm-y-glo ydoedd, merch hynaf y diweddar Mr a Mrs Owen Thomas Jones, Pen y Bwlch. Gedy dair chwaer, Mrs Alice Owen, Mrs Lena Evans, Plas Hedd, Bangor a Mrs Laura Nelson, Plymouth. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel M.C. Brynrefail, Medi 24 gyda'r Parch W.O. Roberts, Llanrug yn gwasanaethu. Dymuna Bryan Evans (Llangefni - nai), ddiolch ar ran ei fam a'i ddwy fodryb am bob hynawsedd a chymorth ac i staff Plas Pengwaith am eu gofal caredig.

DYDDIADUR

HYDREF:

LLANRUG: Theatr Bara Caws yn perfformio 'Sboncyn' yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.00.

31: BETHEL: Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor y Ganolfan am 7.30.

TACHWEDD

1 Mawrth: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol - Penigampio

2, Mercher: LLANBERIS: Clwb y Mamau

3, Iau: WAUNFAWR: Cyfarfod Blynnyddol Sefydliad y Merched

DEINIOLLEN: Cymdeithas Chwirydd Capel Disgwylfa - sgwrs gan Mrs Delyth Thomas

4, Gwener: YR ARDAL: Clwb Eryri DEINIOLLEN: Noson Goffi dan nawdd

Merched y Wawr yn Ysgol Gwaun Gynfi

5, Sadwrn: WAUNFAWR: Noson Tân Gwyllt yr Urdd am 6.30

7, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed

DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched

8, Mawrth: LLANRUG: Merched y Wawr - sgwrs gan Dr Derec Llwyd Morgan

BETHEL: Clwb Bro Rhos

9, Mercher: DEINIOLLEN: Plaid Cymru - Noson yng nghwmni Dafydd Iwan yn y Ganolfan.

BETHEL: Merched y Wawr - sgwrs gan Dr Dafydd Roberts, Tregarth ar 'Y Chwarelwr a'i Gymdeithas'.

10, Iau: LLANRUG: Noson Goffi er budd Cronfa Eglwys Sant Mihangel yn yr Ysgol Gynradd

11, Gwener: LLANBERIS: Te yr Henoed

Noson o 'Bingo a Lluniaeth' er budd Cronfa'r Galon yng Ngwesty'r Gwynedd

12, Sadwrn: WAUNFAWR: Eisteddfod yr Ardal

14, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St John

16, Mercher: LLANBERIS: Clwb y Mamau

CWM-Y-GLO: Merched y Wawr

17, Iau: WAUNFAWR: Traed Wadin yn perfformio ym Mryn Eirian am 8.30

18, Gwener: LLANBERIS: Ffair Gaeaf Clwb yr Henoed

21, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed

22, Mawrth: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol - Noson Lawen Parti Coleg y Brifysgol

25, Gwener: LLANBERIS: Te yr Henoed

WAUNFAWR: Plaid Cymru - noson agor tymor yn yr Afr, Beddgelert yng nghwmni Parti'r Gerlan, Bethesda

28, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St John

30, Mercher: LLANBERIS: Clwb y Mamau

LLANRUG: Cangen Plaid Cymru - Noson yng nghwmni Mr E. Breeze-Jones, y Naturiaethwr, yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£5: Mat Pritchard, Rhosbodrual.

£3: Di-enw, Llanrug; Mrs Ella Williams, 15 Pentre Helen, Deiniolen.

£2: Di-enw, Cwm-y-glo; Di-enw, Clwt-y-bont; Mr a Mrs John Thomas, Maes Padarn, Llanberis; Mrs Mavis Williams, 3 Cynfi Terrace, Deiniolen; Mrs G. Wheldon Jones, Penygroes; Mrs G.J. Griffith, Stryd Newton, Llanberis; Mrs A. Jones, Glendale, Nant Peris.

£2: Rhiannon Llywelyn, Tonteg; Di-enw, Penisarwaun.

£1: Mr a Mrs W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa, Deiniolen; Mrs Mary Williams, 29 Hafod Oleu, Deiniolen.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

CHWARAEON

MARATHON ERYRI

Am 9.30 fore dydd Sul, Hydref 30 bydd un o rasmus marathon caletaf Prydain yn cychwyn o lan Llyn Peris, gan ddilyn y ffordd fawr i fyny Bwlch Llanberis gan droi a disgyn drwy Nant Gwynant i bentref Beddgelert. Oddi yno, dringo i fyny'r gelltydd tua Rhyd-ddu ac ymlaen heibio i Lyn Cwellyn, Betws Garmon ac i'r Waunfawr. Yma, o bosibl mae rhan galetaf y ras, oherwydd rhaid dringo o'r Waunfawr i'r Groeslon a throï ar hyd yr hen ffordd dros fynydd Cefn-du i Fwlch y Groes, a disgyn heibio Dinas Tŷ-du i Lanberis a diwedd y ras ar y ffordd sy'n arwain i Bont y Bala.

Mae rasmus marathon fel arfer yn dilyn cwrs gweddol wastad, ac felly nid oes gobaith y gellir torri record byd ddydd Sul. Er hynny, mae gobaith y bydd yr enillydd yn gorffen rywle o fewn dwy awr a hanner. Dyna amser Jeff Norman a enillodd y ras pan gynhaliwyd hi am y tro cyntaf y llynedd. Mae wyneb Jeff Norman yn eithaf cyfarwydd yn yr ardal bellach, oherwydd mae'n cystadlu'n rheolaidd yn Ras yr Wyddfa (ac wedi ei hennill hefyd).

Eleni bydd llawer o redwyr lleol yn rhedeg hefyd, rhai ohonynt am y tro cyntaf. Yn eu plith bydd Dafydd Ellis (Caernarfon - Llanberis gynt) sy'n cael ei noddi i godi arian ar gyfer Clwb Rhedwyr Eryri. Defnyddir yr arian i dalu am gludiant i fechgyn a genethod y Clwb i rasmus traws-gwlad a gynhelir yn ystod misoedd y gaeaf.

Deallaf hefyd fod Alan Jones o gyffiniau Llundain yn dychwelyd i'w hen ardal i redeg yn y ras hon. Mae llawer o'r darllenwyr yn cofio Alan yn Ysgol Brynrefail tuag ugain mlynedd yn ôl yn ennill pob ras bron ym Mabolgampau'r Ysgol. 'Doedd rhedeg rasmus marathon ddim mor boblogaidd y pryd hwnnw, a ras traws-gwlad yr ysgol oedd y pellter hwyaf a redai unrhyw un bron. Diddorol fydd gweld sut amser a gaiff Alan yn ei hen gynefin.

Rhedwr lleol arall a wnaeth argraff dda y llynedd oedd Cai Larsen. Y ras hon y llynedd oedd ei farathion gyntaf, ac fe redodd y chwe milltir ar hugain mewn rhyw funud dros deirawr - amser

arbennig o dda. 'Rwy'n siŵr y bydd yn edrych ymlaen i wella'r amser hwn eleni a dod i mewn o dan deirawr. (Mae teirawr i farathion yn darged tebyg i un pedwar munud am filltir.)

'Doedd y tywydd ddim yn or-ffafriol y llynedd ar gyfer y ras gyda glaw trwm a niwl oer ar brydiau. Gobeithio y bydd yn sychach eleni, fel y gall y rhedwyr roi o'u gorau, ac er mwyn i'r gwylwyr fwynhau ras sy'n debygol o gynnwys 500 o redwyr gorau Prydain.

LLWYDDIANT RHEDWYR ERYRI

Er bod nifer o'r rhedwyr mwyaf amlwg yn absennol, daeth canlyniadau ardderchog i Glwb Rhedwyr Eryri yn y cyntaf o 6 chyfarfod rasmus traws gwlad yng Nghei Connah ddechrau'r mis.

Ymhlith yr enillwyr roedd Linda Prytherch o Lanberis yn yr adran i enethod dan 11 oed.

Canlyniadau canmoladwy eraill gan redwyr o fro'r 'Eco' oedd: Dan 15 oed: Adrian Owen, Waunfawr, 2il; Mathew Ward, Llanrug, 5ed; Russell Williams, Bethel, 8fed; Martin Roberts, Llanrug, 10fed. Dynion: Ashley Wager, Cwm-y-glo, 9fed.

Mae sesiynau ymarfer y gaeaf wedi aildechrau ac y mae croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb mewn rhedeg i fynychu'r ymarferiadau. Byddant fel arfer, yn cael eu cynnal ar feysydd chwarae'r Aber yng Nghaernarfon bob bore Sul. Am ychydig o wybodaeth gellir ffonio D. Ellis ar Gaernarfon 5184.

Y DDIWEDDARAF

Er gwaetha'r cartŵn brwnt ar waelod y ddalen, daeth timau Bethel, Deiniolen a Llanrug adref nos Sadwrn yn weddol hapus. Er mai colli oedd hanes Bethel, gallant fod yn fodlon iawn na chafodd Pwllheli ddim mwy na dwy gôl yn eu herbyn. Mae Pwllheli wedi bod yn sgorio tua chwech gôl ymhob gêm ar gyfartaledd. Daeth Deiniolen a Llanrug yn ôl o'u gemau hwy wedi ennill! Deiniolen yn sgorio dwy yn erbyn Bethesda, a Llanrug yn curo'r Felinheli o unig gôl y gêm. Doedd gân dîm Llanberis ddim gêm ddydd Sadwrn, ond roedd eu tîm ieuenctid yn llwyddiannus o bedair gôl i ddwy yn erbyn Pwllheli.

Dyma sut y mae Cynghrair Arfon yn sefyll ar hyn o bryd:

	ch	e	cyf	coll	o bl	yn erb	pwynt
Llanberis	10	8	1	1	36	18	17
Deiniolen	8	3	2	3	10	26	8
Llanrug	10	2	3	5	12	24	7
Bethel	9	1	0	8	9	30	2

Felly mae Llanberis ymhell ar y blaen i dimau eraill y fro - cymaint o bwytiau â'r tri thîm arall gyda'i gilydd; ac wedi sgorio mwy o goliau na'r tri arall hefyd.

LLANRUG - O'R DYDDIAU A FU



Dyma lun un o hen dimau Llanrug. Ar waelod y llun dywedir eu bod yn chwarae yn erbyn Newborough. Nid oes dyddiad arno. Oes rhywun o'r darllenwyr all ein goleuo?

Gorsafoedd Teledu VHF 405 o linellau i'w cau erbyn diwedd 1984

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref yn ddiweddar y byddai pob trosglwyddydd VHF 405-o-linellau y BBC a'r IBA a oedd ar ôl yn cau erbyn diwedd y flwyddyn nesaf. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, bu'n rhaid i'r BBC a'r IBA newid eu hamserlen i gau'r trosglwyddyddion a oedd ar ôl. Bydd gorsafoedd VHF 405-o-linellau y BBC yn Llanddona a Chaergybi a gorsaf yr IBA yn Arfon yn cael eu cau ar Ionawr 2, 1984.

Nifer cymharol fach o wylwyr yn unig yng Nghymru sy'n dibynnu ar y gwasanaeth 405-o-linellau am fod gwasanaethau 625-o-linellau BBC Cymru a BBC 2 a HTV Cymru a S4C

eisoes yn cyrraedd 96 y cant o'r boblogaeth.

Dylai'r gwylwyr yr effeithir arnynt ddanfôn eu henwau a'u cyfeiriad er mwyn cael gwybodaeth bellach at: (Ar ran y BBC) Peter Fear, Swyddog Hysbysrwydd Peirianyddol, Cymru, Canolfan y BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ, Tel. (0222) 564888. (Ar ran IBA) Eirion Lewis, Swyddog dros Gymru IBA, Tŷ Elgin, Heol y Santes Fair, Caerdydd CF1 1DX, Tel. (0222) 384541-2-3. Dylai gwylwyr wneud hyn cyn dechrau cau'r gorsafoedd fel bod y cyrff darlledu yn gallu rhoi cyngor. Bydd y gorsafoedd teledu 405-o-linellau BBC Cymru yr effeithir arnynt yn cario penawdau yn dangos y cyfeiriad uchod am ryw wythnos, rywbryd cyn yr amser y byddant yn cau.



Wyddoch chwi fod gôl-geidwaid Bethel, Deiniolen a Llanrug yn ardderchog am gyfri?



Cefnogwr Llanberis - "Pam felly?"



Wel, maen nhw'n codi'r bêl o gefn y rhwyd mor aml, mae'n rhaid iddyn nhw fod yn dda am gyfri!